

DISSERTATION ASSESSMENT PROFORMA: Empirical ²

Student name:	<input type="text" value="Catrin Wyn Stone"/>	Student ID:	<input type="text" value="20003746"/>
Programme:	<input type="text" value="SPE"/>		
Dissertation title:	<input type="text" value="Datblygu Sgiliau Llythrennedd trwy Addysg Gorfforol"/>		
Supervisor:	<input type="text" value="Dr. Anna Bryant"/>		
Comments	Section		
	<p>Title and Abstract (5%) Title to include: A concise indication of the research question/problem. Abstract to include: A concise summary of the empirical study undertaken.</p>		
	<p>Introduction and literature review (25%) To include: outline of context (theoretical/conceptual/applied) for the question; analysis of findings of previous related research including gaps in the literature and relevant contributions; logical flow to, and clear presentation of the research problem/ question; an indication of any research expectations, (i.e., hypotheses if applicable).</p>		
	<p>Methods and Research Design (15%) To include: details of the research design and justification for the methods applied; participant details; comprehensive replicable protocol.</p>		
	<p>Results and Analysis (15%) ² To include: description and justification of data treatment/ data analysis procedures; appropriate presentation of analysed data within text and in tables or figures; description of critical findings.</p>		
	<p>Discussion and Conclusions (30%) ¹ To include: collation of information and ideas and evaluation of those ideas relative to the extant literature/concept/theory and research question/problem; adoption of a personal position on the study by linking and combining different elements of the data reported; discussion of the real-life impact of your research findings for coaches and/or practitioners (i.e. practical implications); discussion of the limitations and a critical reflection of the approach/process adopted; and indication of potential improvements and future developments building on the study; and a conclusion which summarises the relationship between the research question and the major findings.</p>		
	<p>Presentation (10%)~ To include: academic writing style; depth, scope and accuracy of referencing in the text and final reference list; clarity in organisation, formatting and visual presentation</p>		

¹ There is scope within qualitative dissertations for the RESULTS and DISCUSSION sections to be presented as a combined section followed by an appropriate CONCLUSION. The mark distribution and criteria across these two sections should be aggregated in those circumstances.

² This form should be used for both quantitative and qualitative dissertations. The descriptors associated with both quantitative and qualitative dissertations should be referred to by both students and markers.

CARDIFF METROPOLITAN UNIVERSITY

Prifysgol Fetropolitan Caerdydd

CARDIFF SCHOOL OF SPORT

DEGREE OF BACHELOR OF SCIENCE (HONOURS)

SPORT AND PHYSICAL EDUCATION

2013-4

**DATBLYGU SGILIAU LLYTHRENNEDD POBL IFANC
TRWY ADDYSG GORFFOROL**

**(Dissertation submitted under the discipline of
Pedagogy)**

Catrin Wyn Stone

ST20003746

**DATBLYGU SGILIAU LLYTHRENNEDD POBL IFANC
TRWY ADDYSG GORFFOROL**

Cardiff Metropolitan University
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd

Certificate of student

By submitting this document, I certify that the whole of this work is the result of my individual effort, that all quotations from books and journals have been acknowledged, and that the word count given below is a true and accurate record of the words contained (omitting contents pages, acknowledgements, indices, tables, figures, plates, reference list and appendices).

Word count: 11,847
Name: Catrin Wyn Stone
Date: 20/03/2014

Certificate of Dissertation Supervisor responsible

I am satisfied that this work is the result of the student's own effort.

I have received dissertation verification information from this student

Name: _____
Date: _____

Notes:

The University owns the right to reprint all or part of this document

. Cynnwys

<u>Pennod</u>	<u>Teitl</u>	<u>Tudalen</u>
	Rhestr o Dablau	
	Tabl Byrfoddau	
	Cydnabyddiaethau.....	i
	Crynodeb.....	ii
Pennod 1	Cyflwyniad	
1.1	Cefndir yr astudiaeth	2
1.2	Nodau ac amcanion yr astudiaeth.....	6
Pennod 2	Adolygiad Llenyddiaeth	
2.1	Datblygu llythrennedd o fewn Addysg Gorfforol	8
2.1.1	Addysg Grfforol Ansawdd Uchel.....	8
2.1.2	Creu amgylchedd dysgu.....	9
2.2	Pwysigrwydd llythrennedd.....	10
2.3	Dwyieithrwydd Cymraeg a Saesneg.....	11
2.4	Darllen a Ysgrifennu.....	12
2.5	Llafaredd, Siarad a Gwrando.....	14
Pennod 3	Methodoleg	
3.1	Cyfiawnhad o Ddyluniad.....	17
3.2	Moeseg.....	18
3.3	Astudiaeth Beilot.....	18
3.4	Sampl	19
3.5	Dull.....	19
3.6	Analeiddio Data.....	20

3.7	Didwylledd	21
-----	------------------	----

Pennod 4 Trafodaeth o'r Canfyddiadau

4.1	Ffeithiau sy'n effeithio a'r lwyddiant o ddatblygu llythrennedd o fewn Addysg Gorfforol o Ansawdd Uchel	24
4.1.1	Datblygiadau Athrawon ar ddefnydd o Adnoddau a Chefnogaeth	27
4.1.2	Heriau, Anhawsterau o ddatblygu Llythrennedd	30
4.2	Effeith o ddatblygu y 'Physical Education Talking Tool Kit'	31
4.2.1	Canfyddiadau athrawon ar y 'Physical Education Talking Tool Kit' a'r gweithdy	31
4.2.2	Defnydd o'r 'Physical Education Talking Tool Kit' â'r cryfderau ac ardaloedd i ddatblygu ym mhellach	32

Pennod 5 Trafodaeth Cyffredinol a Casgliad

5.1	Trafodaeth Cyffredinol	36
5.2	Goblygiadau yr astudiaeth ac argymhellion ar gyfer arferion	37

Cyfeiriadau	38
--------------------------	----

Atodiadau

Atodiad A: Deg Canlyniadu Addysg Gorfforol o Ansawdd Uchel	A-1
Atodiad B: Taflen gwybodaeth	B-1
Atodiad C: Ffurflen caniatâd	C-1
Atodiad Ch: Canllaw cyfweliad	CH-1
Atodiad D: 5 Adrannau 'Talking Tool Kit'	D-1
Atodiad DD: Tabl Diffiniadau a Chodau	DD-1
Atodiad E: Cais Cymeradwyaeth Moeseg	E-1

Rhestr o Ffigyrau

<u>Rhif Ffigwr</u>	<u>Tetl y Ffigwr</u>	<u>Rhif Tudalen</u>
Ffigwr 1	Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd	5

Tabl Byrfoddau

Byrfodd	Diffiniad
AG	Addysg Gorfforol
GC	Gweithgarwch Corfforol
ChY	Chwaraen Ysgol
AGChY	Addysg Gorfforol a Chwraeon Ygol
FfLIRh	Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd
PETTK	Pysical Education Talking Tool Kit
AGAU	Addysg Gorfforol o Ansawdd Uchel

Cydnabyddiaethau

Hoffwn yn gyntaf ddiolch i fy nhiwtor traethawd hir, Dr Anna Bryant, am ei holl gefnogaeth, arweiniad ac amynedd trwy gydol y broses.

Rhaid diolch hefyd i'r cyfranogwyr sydd wedi cyfrannu at yr astudiaeth, gobeithio, yn astudiaeth ddiddorol a chraff.

Crynodeb

Mae yna ddiffyg llenyddiaeth ac ymchwil a'r llythrennedd ac yn benodol o fewn o fewn addysg gorfforol (AG) o fewn Ysgolion Cymraeg. Y rhesymeg o'r brif nod o'r astudiaeth bresennol oedd nodi'r datblygiad llythrennedd bobl ifanc trwy AG gan nodi canfyddiadau athrawon a'r defnydd o'r pecyn 'Physical Education Talking Tool Kit'(PETTK) o fewn ysgolion Cymraeg. Cynhaliwyd ymchwil ansoddol a wnaeth fabwysiadu'r dull o gyfweiliadau lled-strwythuredig â thair athrawes ysgol uwchradd, darlithydd ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd a chydlynnydd AG a chwaraeon ysgol (AGCHY) sydd i gyd yn arbenigwyr yn AG. Roedd trawsgrifiadau'r cyfweiliadau yn llwyddiannus trwy gynnwys dadansoddiad anwythol ac ymgorffori meini prawf dibynadwy priodol. Arddangoswyd dwy brif themâu o'r cyfweiliadau oedd yn gysylltiedig â llwyddiant llythrennedd (adnoddau a chymorth) ac yn ail, llwyddiant y 'PETTK' (defnydd a chanfyddiadau athrawon o fewn AG). Mae canlyniadau'r astudiaeth hon yn dangos bod Fframwaith llythrennedd ac enwedig y pecyn 'PETTK' wedi cael ei weithredu'n llwyddiannus i mewn i wersi AG gan fabwysiadu'r dull o AG o ansawdd uchel.

Dylai ymchwil pellach ymchwilio i mewn i ganfyddiadau'r bobl ifanc ar y trosglwyddiad a'r defnydd o llythrennedd a'r pecyn 'PETTK' ar eu dysgu ac os oes wedi hybu eu canfyddiadau o siarad a gwrando a'u dealltwriaeth o'r fframwaith.

PENNOD 1

CYFLWYNIAD

1.1 Cefndir yr Astudiaeth

Chaiff AG ei chydabod i fod yn rhan gadarn o'r addysg sydd yn cyfrannu tuag at y cwricwlwm Cymreig trwy gymhwyso dysgwyr â dealltwriaeth a gwybodaeth o'r nodweddion diwylliannol o Gymru trwy weithgareddau creadigol megis dawns, a'r defnydd o wahanol symbyliadau llenyddol i ddatblygu syniadau (NCPE, 2008).

Mae natur AG yn aml yn cael eu gweld yn anodd oherwydd bod rhywfaint o ddryswch ynghylch ystyr y termau a ddefnyddir (Capel, 2013). Am nad oes cytundeb clir y mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng y cyd-destunau sydd yn gysylltiedig ag chwaraeon megis: Chwaraeon Ysgolion (ChY) a Gweithgarwch Corfforol (GC). Mae ChY yw'r ffurf strwythur o ddysgu sy'n digwydd y tu hwnt i'r cwricwlwm sydd yn cael eu goleuo o'r cwricwlwm estynedig, sydd yn botensial i ddatblygu ac ehangu'r ddysg sylfaen sy'n digwydd o fewn AG (Estyn, 2012). Caiff GC ei chyfeirio at yr holl symudiadau corfforol sy'n canolbwyntio ar ymdrech yr unigolyn a defnydd o egni o fewn amryw o weithgareddau chwaraeon ac AG (AfPE 2013; Buckworth a Dishman, 2002), sy'n cynnwys chwaraeon dan do, awyr agored a gweithgareddau pob dydd.

AG yw'r unig bwnc sy'n canolbwyntio a'r ymdrechion y plant a dysgu sut mae'r corff yn gweithio a'i ddatblygiad corfforol (Review group,2004) gan hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles pobl ifanc (DfES,2004 & 2005) ac yn hybu ymwybyddiaeth cydbwysedd, rheolaeth a chydsymud a sgiliau motor. I rai pobl ifanc, AG yw'r unig gyfle i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol dwys (Trudeau a Shephard,2004), ac felly mae angen i ddeall ei chanlyniadau a fwriadwyd. Mae'r Gymdeithas ar gyfer Addysg Gorfforol (afPE) wedi diffinio AG fel y canlynol:

"Cynllunio, dysgu'n ddylanwadol sy'n digwydd yng nghwricwlwm yr ysgol o fewn eu hamserlen sy'n cael ei gyflwyno i'r holl ddisgyblion. Mae hyn yn cynnwys "ddysgu i symud" (gallu corfforol) a "symud i ddysgu" (dysgu drwy symud, ee cydweithrediad). Y cyd-destun ar gyfer dysgu yw weithgaredd corfforol, gyda phlant i brofi amryw eang o weithgareddau gan gynnwys chwaraeon a dawns (afPE, 2008, t.9)."

Yn barhaol a datblygiad corfforol mae yna gysylltiad ymhellach i brosesu cymdeithasol a gwybyddol sy'n ymwneud â chysylltiad gwirioneddol rhwng sut mae'r ymennydd a'r corff yn datblygu. (Review group,2004) Chaiff hyn eu uwch oleuo yn y

dyfyniad "ddysgu i symud" (gallu corfforol), sef, datblygu symudiadau ffyrdd amrywiaethol mewn sefyllfaoedd annisgwyl a disgwylidig (afPE,2009) a "symud i ddysgu" (dysgu trwy symud), sef, dysgu sy'n hintegreiddio ag agweddau o ddysgu megis sgiliau a dealltwriaeth tu hwnt i weithgareddau corfforol wrth gydweithio ag eraill (afPE,2009 a Halverson,1971).


Mae'r Cwricwlwm o AG ansawdd uchel yn galluogi pob disgybl i fwynhau a llwyddo mewn sawl math o weithgarwch corfforol gan ddatblygu ystod eang o sgiliau megis y gallu i ddefnyddio tactegau, strategaethau a syniadau cyfansoddiadol i berfformio'n llwyddiannus (Capel *et al*, 2013). Yr egwyddorion sylfaenol o AG safon uchel a chwaraeon yw eu bod amser yn galluogi pob person ifanc, beth bynnag yw eu hamgylchiadau neu allu, i gymryd rhan a mwynhau AG a chwaraeon. Prif nod yw cyrraedd a gwella manteision ar gyfleoedd chwaraeon o bum mlwydd oed hyd at 16 mlwydd oed gan gynyddu canran o blant ysgol sy'n treulio o leiaf ddwy awr bob dydd ar AG o safon uchel chwaraeon ysgol o fewn a thu hwnt i'r cwricwlwm. Ddiffiniwyd AG ansawdd uchel gan y DfES, 2004 fel : *"Mae AG ansawdd uchel a ChY yn cynhyrchu pobl ifanc gyda'r sgiliau, dealltwriaeth, dymuniad ac ymrwymiad i barhau i wella a chyflawni mewn amrywiaeth o addysg gorfforol, chwaraeon a gwella iechyd gweithgareddau corfforol yn unol â'u galluoedd."* (DfES, 2004).

Wrth ddilyn AG ansawdd uchel y mae'r Llywodraeth wedi datblygu Fframwaith newydd o fewn y gydran yma, sydd bellach yn ofyniad o fewn cwricwlwm yr ysgol ers Medi, 2013. Ar ôl chyflwynwyd y Fframwaith Sgiliau yn 2008 ddarganfyddwyd ESTYN diffyg sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu fel y broblem fwyaf cyffredin o fewn ysgolion, ynghyd a sgiliau cyfathrebu gwan ac anallu gweithwyr i ddangos menter, datrys problemau a gweithio'n annibynnol.

Oherwydd y gostyngiad mewn perfformiad darllen disgyblion yng Nghymru (PISA, 2009), chafwyd y Rhaglen Genedlaethol ar Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh) eu creu i gynorthwyo plant Cymru i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ac i helpu athrawon o bob pwnc i nodi a darparu cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso i lythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm i ddysgwyr 5 i 14.

Diffinnir Wray (2004) a Education for All Global Monitoring Reports, (2006) Llythrennedd fel y canlynol: *'Set o sgiliau diriaethol sydd a'r gallu a'r parodrwydd i ddefnyddio darllen ac ysgrifennu i lunio ystyr o destun printiedig a disgyblaeth benodol, mewn ffyrdd sy'n bodloni gofynion y cyd-destun cymdeithasol penodol.'*[t.136]

Mae sgiliau llythrennedd a rhifedd yn gwbl hanfodol er mwyn i bobl ifanc i gyrraedd eu potensial p'un a'n bwriadu i fynd i addysg bellach, uwch neu symud i'r farchnad gyflogaeth. Mae'r FfLIRh cenedlaethol yn amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu gweithredu i wella safonau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru (FfLIRh, 2013) fel y ganlyn yn Ffigwr 1. Y gydran sy'n gysylltiedig â'r brif astudiaeth yw'r cyd-destun o fewn llythrennedd sef llafaredd sydd yn rhan hanfodol o ddatblygu llythrennedd o fewn AG.



Ffigwr 1 Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Am nad oes llawer o wybodaeth o ran llythrennedd o fewn AG, ddangosir ymdrech i hyrwyddo llythrennedd o fewn AG gan arlwyo cyfle i fynychu darlithoedd i ddysgu am y pecyn newydd sydd yn cael eu cyflwyno i'r ysgolion yng Nghymru o ran y rhaglen llythrennedd ac yn benodol yn canolbwyntio ar siarad a gwranddo sy'n cael eu cyfeirio fel y 'Physical Education Talking Tool Kit (PETTK).' O ran o'n hastudiaeth bersonol, mynychais weithdy diwrnod cyfan ar yr wythfed o Fai 2013 yn Brif Ysgol Fetropolitan Caerdydd ar y pecyn 'Datblygu Iaith Gyffredin mewn Addysg Gorfforol'. Mae'r pecyn llawn gwybodaeth ddiddorol a phenodol ar sut all athrawon chyfleu a defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd fel rhan o ddysgu pob dydd. Chaiff y pecyn eu rhannu i fyny i bum adran i helpu trosglwyddo'r prif elfennau megis: cyfarwyddiadau ar sut i'w defnyddio, gwahanol fathau o siarad, cefnogi'r dasg, dysgu cydweithredol, meddwl am siarad ac edrych a gwranddo ymarferol.

1.2 Nodau ac Amcanion yr Astudiaeth

Fydd yr astudiaeth bresennol yn cael eu canolbwyntio ar y pecyn 'PETTK,' sydd yn datblygu iaith gyffredin mewn AG, er mwyn cheisio ymchwilio i ba raddau y mae AG yn datblygu sgiliau llythrennedd pobl ifanc o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Serch y FfLIRh a'r pecyn 'PETTK' nad oes llawer o ymchwiliadau wedi cael eu gwneud o'r blaen. O ganlyniad bydd elwa mewn i'r pecyn 'PETTK' a datblygiadau'r athrawon o ddefnydd o lythrennedd o fewn gwersi AG yn ehangu ein gwybodaeth ar y pwnc. Ar ben hynny, mae yna fwlch o fewn ymchwil addysgol sydd yn ymchwilio ar AG o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac felly;

Nod yr astudiaeth bresennol oedd i archwilio i mewn i ba raddau y mae AG yn datblygu llythrennedd pobl ifanc.

Y brif amcanion oedd i:

- Nodi canfyddiadau athrawon o sut mae llythrennedd wedi effeithio ar addysgu disgyblion o fewn AG
- Nodi enghreifftiau o sut mae athrawon AG yn datblygu llythrennedd mewn AG.
- Nodi effaith hyfforddiant llythrennedd 'PETTK' ar addysgu a dysgu.

PENNOD 2
ADOLYGIAD LLENYDDIAETH

Pwrpas y bennod yma yw darparu'r darllynydd gydag adolygiad beirniadol ar ymchwil yn ymwneud â llythrennedd mewn Addysg Gorfforol (AG). Bydd yr adolygiad yn edrych i mewn i'r pump cydrannau canlynol; datblygu llythrennedd o fewn AG gan fabwysiadu cysyniadau o AG o ansawdd uchel (AGAU) ai fframwaith o gynlluniau craidd AG a chreu amgylchedd dysgu o ansawdd. Pwysigrwydd llythrennedd ym mywyd pob dydd, chaiff hefyd cydlynu gyda dwyieithrwydd Cymraeg a Saesneg ac i ddiweddu bydd yr uchod i gyd yn cydlynu i mewn a'r brif astudiaeth o ddarllen, ysgrifennu, siarad a gwrando a ddeilliwyd o lafaredd sydd yn gydran o fewn Fframwaith Llythrennedd.

2.1 Datblygu Llythrennedd o fewn AG

2.1.1 Addysg Gorfforol Ansawdd Uchel

Er mwyn i'r ysgolion darparu AG o ansawdd uchel ar gyfer pobl ifanc, mae rhaid iddynt ddilyn arweinyddiaeth o greu gweledigaeth a gwneud y weledigaeth yn realiti (DfES 2004). Pan fydd ysgolion a chlybiau chwaraeon yn darparu AGAU dylen weld pobl ifanc sydd yn cyflawni'r deg canlyniad (gweler atodiad A) sydd yna i helpu athrawon i asesu cyfraniad y plant o fewn gwersi AG. Dylai'r deg canlyniad dysgu fod yn uchelgais i bob ysgol er mwyn creu gweledigaeth, ac yn eu hystyried i fod yn bwysig am nifer o resymau, nid lleiaf oherwydd y gall helpu pobl ifanc gwneud dewisiadau ffordd o fyw'n gytbwys ac annog cyfranogiad gydol oes mewn gweithgaredd corfforol (DfES, 2004; Kirk, 2005)

Darganfyddwyd Alliance of Excellent Education (2004)(AoEE) fod mwyafrif o ddisgyblion o fewn amgylchedd AG yn cael hi'n anodd cyrraedd y safonau disgwylidig. Dyle'r athrawon cael y gallu a'r cyfrifoldeb i weithredu'r rhinweddau o AGAU trwy ddarparu lefel o broffesiynoldeb a'r gallu i roi cymorth i'r bobl ifanc, sydd yn cael eu nodi'n gryfder am eu bod yn dangos fod yr athrawes/athro yn gallu trosglwyddo AGAU a chadarnhau bydd y bobl ifanc yn dilyn a chyflawni'r deg canlyniad o AGAU. Mae Fleming a Bunting (2007) yn cytuno gyda'r datganiad AoEE trwy gyfiawnhau fod AGAU yn strwythur sydd yn rhoi cyfaddasrwydd i bob myfyriwr o unrhyw anabled i lwyddo. Yn y cyd-destun yma, yr unig ffurf all pobl ifanc llwyddo yw drwy roi cyfle iddynt o wahanol fathau o weithgarwch corfforol (Harris & Cale, 1997).

Yn ogystal ag hyn, cyd-destynwyd Fleming a Bunting (2007) y dylai'r athrawon o fewn y weithred o AGAU defnyddio strategaethau cadarnhaol o ddysgu megis rhoi ychydig o reolaeth i'r bobl ifanc, hynny yw, rhoi dewis i'r myfyrwyr, gweithio o fewn grwpiau bach le allant ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu, datrys problemau a chydweithio gydag eraill.

Wrth wneud hyn, mae yna bwyslais ar ddull sy'n canolbwyntio ar yr athletwr sy'n hyrwyddo ymdeimlad o berthyn, am fydd y bobl ifanc gyda rôl mewn gwneud penderfyniadau a gwella ymagwedd ar y cyd i ddysgu (Kidman, 2001;2005). Mae hefyd yn nodwedd o ymarfer rheolaidd sy'n atgyfnerthu a mireinio sgiliau symud ac adeiladu ar eirfa wrth gyfuniadau o ffitrwydd, gallu technolegol a gweithrediad gwybyddol, sy'n gallu cyfrifo a phrosesu gwybodaeth benodol.(Ofsted, 2008).

2.1.2 Creu amgylchedd dysgu

Mae gofyn i athrawon i ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau yn yr ystafell ddosbarth sy'n drosglwyddadwy o un pwnc i'r llall. Yn ogystal â sgiliau sydd angen ar gyfer addysgu unrhyw bwnc, mae'n ofynnol i athrawon i ennill sgiliau penodol ychwanegol er mwyn addysgu llythrennedd yn effeithiol.

Mae nifer o agweddau dysgu all effeithio ar agweddau pobl ifanc tuag at AG o fewn amgylchedd ysgol sy'n gallu cael ei addasu i weddu anghenion pobl ifanc wrth i'r athrawon addasu eu dull o gyflwyno a chynnwys o fewn gwersi AG (Rikard a Banville, 2007). Mae rôl a perfformiad athrawon tu fewn i AG wedi dod yn fwy pwysig ers i Mosston a Ashworth (1994) chyflwyno'r sbectrwm o arddulliau addysgu a'r effaith y gall ei chael ar ddysgu pobl ifanc. Awgrymwyd fod nifer o arddulliau addysgu o fewn yr amgylchedd dysgu yn cael eu hannog oddi wrth y clwstwr cynhyrchiol, sydd yn annog fwy o ddysgu annibynnol gydag arddulliau, megis dwyochrog a dysgwr-ganolog (Morgan *et al.*, 2005) a'r clwstwr atgynhyrchiol arddulliau megis gorchymyn ac ymarfer sydd yn ganolog i athrawon.

Sefydlwyd Salvara *et al.*, (2006) fod athrawon yn tueddu i ddefnyddio'r arddulliau addysgu atgynhyrchiol fwy traddodiadol wrth iddynt gael gwell rheolaeth dros y dosbarth. Cefnogwyd Morgan *et al.*, (2005) y canfyddiadau canlynol wrth nodi fod llawer o ddosbarthiadau AG yn athro-ganolog ac yn canolbwyntio ar ddarparu cyfarwyddiadau. Er bod yr arddulliau addysgu atgynhyrchiol yn fwy poblogaidd, ers hyn, darganfyddwyd Salvara *et al.*, (2006) fod y clwstwr cynhyrchiol o arddulliau addysgu yn dylanwadu agweddau cadarnhaol gan y disgyblion. Yn ogystal, dangoswyd y clwstwr atgynhyrchiol effeithiau allai fod yn niweidiol ar agwedd y disgyblion wrth iddynt gael eu hymddieithrio. Athrawon sydd ag adnabyddiaeth am yr arddulliau addysgu yn diweddu diddordeb disgyblion a chreu amgylchedd mwy cadarnhaol o fewn AG (Morgan *et al.*,2005).

Yn ychwanegol i hyn, i wella cyflawniad llythrennedd ar gyfer pob myfyriwr, esboniwyd Ballinger a Deeney (2006) fod rhaid i athrawon feddwl yn greadigol am ffyrdd y gall addysgu a dysgu llythrennedd o fewn meysydd a graddau wrth gael eu trwytho drwy gydol y cwricwlwm. Dylai phob addysgwyr corfforol cael y gallu i gefnogi cyfarwyddiadau llythrennedd. Serch hyn nodwyd Bean (2000), fod pynciau megis AG a cherddoriaeth yn anaml ddim yn derbyn ystyriaeth o fewn ymchwiliadau mewn cyfnodolion llythrennedd, mae cyfleoedd di-rif ar gyfer darllen ac ysgrifennu o fewn y meysydd hyn. Ar gyfer addysgwyr corfforol, y cwestiwn yw sut i fanteisio ar y cyfleoedd o fewn y gampfa, caeau, neu ymrysonfa AG arall ar gyfarwyddyd i ysbrydoli agweddau darllen cadarnhaol, yn dysgu strategaethau a phrosesau sgiliau llythrennedd, a modelu darllen ac ysgrifennu fel gweithred llythrennog sydd yn bwysig yn y maes a chyflawni nod y pwnc o fod yn ymarferol.

Yn ôl yr adolygiad Rose (2006), mae'n ofynnol i athrawon sy'n cymryd rhan yn yr addysgu llythrennedd i allu barnu plant ar gyfer ffoneg synthetig yn gweithio drwy arsylwi gofalus ac asesu cadarn (Rose, 2006). Felly, mae angen i athrawon fod â gwybodaeth am ddatblygiad iaith ac ar ba gam y mae'r plant yn barod ar gyfer llythrennedd. Rhaid iddynt hefyd allu nodi pan na fydd plentyn yn barod ac yn disgyn y tu ôl i hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran datblygiadol.

2.2 Pwysigrwydd Llythrennedd.

Mae llythrennedd yn rhan bwysig o ddysgu ac mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei addysgu yn dda i ganiatáu dechrau gorau bosibl i fywydau'r plant. Cyn i'r Strategaethau Llythrennedd Cenedlaethol (NLS) cael ei gyflwyno yn 1998, erbyn i'r plant gadael yr ysgolion cynradd, dim ond 65% o blant oedd yn cyrraedd y lefelau targedau yn Saesneg. Yn 2005, roedd hyn wedi cynyddu i bron 80%. Fodd bynnag, yn 2006 roedd tua 20% o blant dal yn gadael ysgol gynradd heb y sgiliau darllen a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran (Rose, 2006), o ganlyniad roedd nifer o blant all ddod ar draws brwydrau nid yn unig yn yr ysgol, ond trwy gydol ei bywydau oherwydd sgiliau llythrennedd gwael (Tŷ'r Comin, 2004-5). Mae'n hollol bwysig fod plant yn cael y cynnig a'r cyfle gorau bosibl yn yr ysgol i gyfleu a chael y profiad o ddysgu sgiliau llythrennedd o safon (Plunkett, 2009).

Mae sgiliau llythrennedd a rhifedd yn hanfodol er mwyn i bobl ifanc gyrraedd eu potensial os ydynt yn bwriadu i fynd i addysg bellach uwch neu'r farchnad gyflogaeth. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh) wedi cael ei ddatblygu i helpu i

gyflawni'r nodau y mae'r bobl ifanc Cymru yn cael eu gallu i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ardderchog yn ystod eu hamser yn yr ysgol (FfLIRh, 2013).

Nad yw sgiliau llythrennedd yn farwaidd, maent yn newid a thyfu wrth i blant aeddfedu (Ballinger a Deeney, 2013). Mae ymchwilwyr wedi dysgu bod llythrennedd yn cael eu dysgu a'i fabwysiadu ym mhob oed (Sippola 1994), gall plant dysgu ar gyfraddau gwahanol o fewn gwahanol amgylcheddau (Slegers, 1996), megis, cartrefi a lleoliadau cymunedol. Pan fydd gweithwyr proffesiynol llythrennedd a gweinyddwyr ysgol yn siarad am lythrennedd, maent yn sôn am allu i gyfathrebu'n effeithiol ac i wneud ystyr drwy iaith lafar ysgrifenedig; y gallu i ddarllen, ysgrifennu, siarad a gwranddo, cymhorthion a rhesymu gweledol (Ballinger a Deeney, 2013; Buell a Whittaker, 2001).

Mae'r berthynas rhwng ansawdd dysgu ac ansawdd llythrennedd yn gymhleth, ond y gall sgiliau llythrennedd rhoi mynediad i rai dulliau pwysig o ddysgu pobl ifanc o fewn amgylchedd dosbarth. Bydd ymarfer sgiliau llythrennedd adeiladol yng nghyd-destun dysgu yn rhoi hwb i lefel y sgiliau a dysgu. Mae'r fframwaith ar gyfer llythrennedd a dysgu yn offeryn i helpu ysgolion i ddatblygu llythrennedd a dysgu ar draws pob adran mewn ffordd systematig (DfES, 2004). Mae Bullock (1975) yn nodi y dylai pob athro/awes fod yn ymwybodol fod iaith yn chwarae rhan mewn dysgu ac fel y dylai o'r fath gallu deall y prosesau y mae dysgu'n digwydd ym mhob pwnc yn well. Mae argymhelliad cryf iawn yn cael ei wneud y dylai'r athrawon creu amgylchedd ddosbarth i annog ystod eang o iaith (DES 1975:178).

2.3 Dwyieithrwydd Cymraeg a Saesneg

Yng Nghymru defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg, gyda 20.8% o'r boblogaeth ledled Cymru yn siarad Cymraeg. Mae'r defnydd o'r Gymraeg ar ei chryfaf yng Ngogledd Orllewin Cymru, lle mae 69.0% o boblogaeth sir Gwynedd, yn gadarnle i'r iaith Gymraeg a siarad Cymraeg (Deuchar, 2005; Thomas a Gathercole, 2005; Gathercole, 2007c).

Mae geirfa ddwyieithog yn tueddu i gael eu dosbarthu ar draws dwy iaith benodol, o ganlyniad i'r ffaith bod plant dwyieithog yn aml yn defnyddio a chlywed ei iaith ar draws gwahanol feysydd o ddefnydd iaith (cf. Li 1996). Mae pobl ddwyieithog yn aml yn datblygu iaith sy'n gysylltiedig â'r ieithoedd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destunau penodol (Rhys a Thomas, 2012) megis y cartrefi ac o fewn ysgolion.

Mewn cymunedau lle mae un iaith yn meddu ar statws mwyafrif dros un arall, amlygiad i brif iaith yn debygol o fod yn fwy sicr na dod i gysylltiad â'r iaith leiafrifol, gan wneud caffael

llawn y brif iaith yn fwy o sicrwydd na chaffael yr iaith leiafrifol (Alba 2004; Gathercole, 2007; Gathercole a Thomas 2009). Er enghraifft, archwiliwyd Gathercole a Thomas (2009) y gwahanol broffiliau o dri math gwahanol o bobl ddwyieithog yng Nghymru: y rhai sy'n agored yn unig i'r Gymraeg gan y ddau riant yn y cartref (plant OWH); y rhai sy'n agored i'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal rhyw yn y cartref (ee plant, un i un dull iaith riant WEH?), ac sy'n agored i'r Saesneg yn unig gan y ddau riant yn y cartref (plant OEH). Chafwyd yr iaith ddwyieithog eu profi am eu gwybodaeth dderbyngar o eirfa Gymraeg, rhyw ramadegol a threfn geiriau. Yn gyffredinol, mae'r plant OWH yn perfformio'n well na'r plant eraill ar y tasgau hyn.

Yn debyg ar uchod fe wnaeth Rhys a Thomas (2012) yr un arbrawf a chanfyddwyd fod dadansoddiad cydberthynol fod mwy o sgiliau geirfa yn ymwneud â mwy o lwyddiant llythrennedd; mesurau geirfa cyfateb i raddau helaeth y rhai ar gyfer darllen ymhlith plant o iaith gartref debyg gefndiroedd. Dangoswyd fod pobl ddwyieithog Cymraeg yn y blaen i'r dwyieithog eraill, yn ôl y disgwyl, canfyddwyd effeithiau clir fod y tasgau Cymraeg wedi datgelu fod yna perthynas rhwng geirfa a darllen oherwydd eu datguddiad i'r iaith Cymraeg yn y cartref. Roedd yr ymchwil yma yn gadarn am gafwyd y sampl enfawr o rhan cyfrangwyr.

Arsylwyd materion le dylai'r astudiaethau cynnwys mesurau o eirfa gynhyrchiol yn ogystal â geirfa, ac, os fesur ehangder a dyfnder gwybodaeth eirfa plant. Ar ben hynny, byddai ychwanegu mesurau o sgiliau llythrennedd, gan gynnwys pragmatig, seineg, dadansoddi dis cwrs a sgiliau ysgrifennu, chaiff hyn rhoi darlun clir o alluoedd plant yn y ddwy iaith yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, dylai astudiaethau pellach hefyd cymryd i ystyriaeth faterion yn ymwneud â newidynnau ysgol, megis methodoleg addysgu a'r pwyslais ar eirfa a darllen (mewn un neu ddwy iaith) yn gwricwlwm yr ysgol.

2.4 Darllen a Ysgrifennu

Canfod Browne (2009) bod yna berthynas sylweddol rhwng dysgu am ddarllen a dysgu am ysgrifennu. Rhan bwysig o'r amgylchedd dosbarth yw ysgrifennu sy'n cael ei ddarparu gan lyfrau. Mae Darllen ac ysgrifennu yn darparu pobl ifanc gyda ffyrdd o gysylltu eu gweithgareddau dosbarth gydag agweddau eraill ar eu bywydau, ac i gymryd rhan weithredol mewn dysgu (Buell & Whittaker, 2001). Mae darllen yn broses weithredol a chymhleth sy'n tynnu ar y cais o nifer o sgiliau ar wybodaeth am iaith a phrint.

Mae yna berthynas gefnogol rhwng dysgu i ddarllen a dysgu i ysgrifennu gan fod y ddau yn golygu dealltwriaeth a defnydd o symbolau ysgrifenedig. Chaiff ysgrifennu cefnogi darllen drwy atgyfnerthu agweddau ieithyddol gweledol. Wrth ysgrifennu mae plant yn cael eu hannog i ddefnyddio eu gwybodaeth o systemau ysgrifennu, golygwyd edrych ar y geiriau a sut maent wedi cael eu sillafu. Pwysleisiwyd Barrs a Thomas (1991) fod ysgrifennu datblygiadol, yn arbennig i annog plant i feddwl am y sain a golwg y geiriau wrth iddynt ysgrifennu, gall hyn cefnogi eu darllen yn hir dymor drwy gadarnhau fod ymwybyddiaeth seinyddol a gwybodaeth wybyddol yr unigolyn yn hybu cywiro, strwythuro sillafu ac yn deall sut mae geiriau yn cael eu hadeiladu (Barrs a Thomas, 1991).

Awgrymodd Scarborough (2001) fod y gallu i ddarllen yn cynnwys cydblethiad o wybodaeth iaith ysgrifenedig neu sgiliau: dealltwriaeth o iaith (hy, gwybodaeth gefndirol, geirfa a gwybodaeth llythrennedd), adnabod geiriau (hy, ymwybyddiaeth seinyddol, datrys a sillafu). Nodwyd Panel Darllen Cenedlaethol y sgiliau tebyg wrth ddisgrifio ffactorau hanfodol ar gyfer llwyddo darllen (Sefydliad Cenedlaethol Iechyd Plant a Datblygu Dynol, 2000). Mae'r Adroddiad y Panel Darllen Cenedlaethol (2000) yn ffurfio sail ar gyfer y ddeddfwriaeth llythrennedd presennol, maent yn datgan fod darllen yn cynnwys pum maes craidd; ymwybyddiaeth ffonem (y gallu i drin mewn un o ben y synau mewn iaith lafar), ffoneg (gwybod sut lythyrau mapio seiniau), rhuglder (darllen â llais, brawddeg, mynegiant a dealltwriaeth briodol), gwybodaeth geirfa (yn ysgrifenedig a llafar), a dealltwriaeth. Mae ysgrifennu yn ymgorffori cyfansoddiad, prosesu, sillafu, gramadeg a mecaneg (Ballinger a Deeney, 2013).

Am fod llythrennedd yn rhan enfawr o'n bywyd pob dydd mae yn a phwyslais enfawr nid ond yng Nghymru ond ar draws ledled y byd. Rhyddhawyd America Canlyniadau Asesiad Cenedlaethol o Gynnydd Addysg (NAEP) yn 2003, prawf llythrennedd sydd yn arddangos canrannau o blant o flwyddyn pump a blwyddyn naw. Cynhaliwyd 31% o blant blwyddyn pump a 32% o blant blynyddoedd naw wnaeth sgorio ar neu uwchben y lefel o 'hyfedr' mewn darllen, sy'n golygu eu bod wedi dangos cymhwysedd dros bynciau heriol, cymhwyso gwybodaeth o'r fath ai throsglwyddo i sefyllfaoedd y byd go iawn (Canolfan Genedlaethol ar gyfer Ystadegau Addysg [NCES], 2004, t.2). Yn ogystal, dim ond 63% o flwyddyn pump a 74% o flwyddyn naw wnaeth sgorio ar neu uwch na'r lefel "sylfaenol", sy'n golygu eu bod yn feistrolaeth rannol o wybodaeth a sgiliau rhagofyniad sy'n sylfaenol i weithio oddi at bob gradd rhagofyniad" (CRG, 2004, t.2). Fodd bynnag, mae'r ymchwil yma dim ond yn rhannol berthnasol i'r ymchwil perthnasol gan eu bod wedi eu cynnal yn America gyda chwricwlwm a system addysg wahanol i Gymru.

Mae Llythrennedd gyda'r gallu i newid y ffordd yr ydym yn datblygu ein cyfathrebu. Erbyn hyn mae gennym lawer o ddealltwriaeth ehangach o destunau ac yn cydnabod bod yr holl destunau mewn print, ac ar y sgrin yn ddarluniadol ar ein darllen. Os ydym am baratoi plant ar gyfer bywyd llythrennog, mae'n bwysig iawn i'w helpu darllen amrywiaeth eang o destunau.

2.5 Llafaredd, Siarad a Gwrando

O enedigaeth, mae plant yn cymryd rhan mewn cyfathrebu ystyrion â'r rhai o'u gwmpas, trwy weithredu'r naill ar y llall clebran ac ystumiau (A Support Document for Kindergarten Teachers and Speech-Language Pathologists, 2008). Mae pob plentyn gyda'r gallu i ddysgu iaith, ac maent yn dechrau cyfathrebu â phawb o'u cwmpas wrth ymarfer a rhag ymarfer synau, ystumiau a datblygu eu personoliaeth a'u synnwyr. Awgrymwyd Wilkinson (1999) fod babanod yn ymddiddanwr cyn y gallent hyd yn oed ddefnyddio iaith. Mae'n gan eu synnwyr o ymateb i giwiau yn yr iaith siarad â nhw eu bod yn dysgu astudrwydd, cymryd tro a goddrychedd sy'n sicrhau ymwybyddiaeth o fwriadau pobl eraill.

Wrth wraidd llythrennedd mae yn fynediad i lafaredd (Browne, 2012). Pwysigrwydd llafaredd yw eu bod yn helpu myfyrwyr i drefnu eu syniadau ac i'w throï i feddwl clir. Os ddefnyddiwyd llafaredd yn y ffurf gywir y gall cynorthwyo i wella gwaith ysgrifenedig, enwedig gramadeg (Grimwood, 2013).

Mae datblygiad iaith lafar yn allweddol i lwyddiant dysgwyr llythrennedd cynnar. Y gefnogaeth o wrando a siarad sy'n datblygu meddwl a rhesymu plant yw trwy ddarllen, ysgrifennu, gwylio, a chynrychioli sgiliau (Grugeon *et al*, 2000). Mae dysgwyr yn barhaus i ddefnyddio gwrando a siarad ag archwilio, deall, a chyfleu syniadau a theimladau o blentyndod cynnar i fod yn oedolyn. Chaiff sgiliau iaith lafar cynnwys gwrando gweithredol a deall, yn dilyn cyfeiriad llafar, a bod yn gallu datgan anghenion yn glir a thrafod materion.

Mae siarad a gwrando yn sylfaen o lythrennedd lle mae siarad yn ymarfer ar gyfer ysgrifennu, maent yn ganlyniad yn ei rinwedd ei hun ac mae'n caniatáu myfyrwyr i ehangu a datblygu eu sgiliau meddwl. Mae siarad archwiliadol yn ffordd effeithiol o ddefnyddio iaith i feddwl ac mae'n un o'r blociau adeiladu o lythrennedd (UK National Oracy Project). Mae dysgwyr yn barhaus yn defnyddio gwrando a siarad ag archwilio, deall, a chyfleu syniadau a theimladau o blentyndod cynnar i fod yn oedolyn. Gyda siarad a gwrando dylai pob plentyn deimlo'n hyderus ac yn cael eu gwerthfawrogi pan maent yn mynegi eu hunain

trwy gyfrwng llafar a gwerthfawrogi pob iaith; dysgu trwy drafod ag eraill; gwrando ar, gwerthuso a pharchu barn pobl eraill a ddaw yn wrandawyr a siaradwyr cymwys (Browne, 2009).

Mae sgiliau sgwrsio yn bwysig ond y defnydd mwy haniaethol o iaith, a elwir y 'hyfedredd iaith wybyddol ac academaidd', sy'n angenrheidiol ar gyfer llwyddiant addysgol. Mae addysgu a dysgu ym mhob pwnc yn dibynnu llawer iawn ar allu'r plant i ddehongli a defnyddio iaith lafar. Mae athrawon yn egluro, cwestiynu, disgrifio a gwerthuso pan mae'r plant yn gwrando, ateb, trafod a gweithio allan syniadau trwy siarad. Bydd y gwaith ym mhob maes yn cyflwyno plant i eirfa pwnc- benodol a defnydd penodol o iaith (Browne, 2009). Yn y cyfnod hwn yn ymestyn gallu'r plant i gyfleu union ystyron a syniadau cymhleth siarad a gwrando ar lawer ffurf a gallant gefnogi meddwl a dysgu mewn sawl ffordd. Yn ôl DfES (2004) mae AG yn amgylchedd da i ddatblygu medrau llythrennedd plant wrando a siarad. Mae'r bobl ifanc yn gallu cyfathrebu eu haddysgu o fewn ffyrdd perthnasol sy'n dangos ystyriaeth am eraill, er enghraifft dangos gweithio ar y cyd a dysgu myfyriol wrth dderbyn a rhoi adborth.

Rhesymeg

I grynhoi, mae'r bennod hon wedi darparu adolygiad beirniadol o'r llenyddiaeth o bwysigrwydd sgiliau llythrennedd mewn plant a'r angen am addysgu llythrennedd o ansawdd uchel er mwyn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen yn ddiweddarach mewn bywyd pobl ifanc. Mae'r drafodaeth wedi awgrymu nad oes ymchwil sydd yn edrych ar lafaredd o fewn addysg pobl ifanc, fodd bynnag, mae yna ofyniad i ymchwilio mewn i bersbectif athrawon ar sut i ddatblygu sgiliau llafaredd enwedig siarad a gwrando o fewn gwersi AG. Bydd hyn yn adnabod barnau, profiadau athrawon hyd hyn, canfyddiadau ac enghreifftiau o wersi llwyddiannus. Felly, pwrpas yr astudiaeth hon fydd i elwa mewnwelediad o sut mae sgiliau llythrennedd yn datblygu pobl ifanc trwy AG. Bydd yr athrawon yn nodi ar sut mae llythrennedd wedi effeithio ar addysg a dysgu'r plant ifanc, yn rhannu enghreifftiau o wers AG llwyddiannus sydd yn mabwysiadu'r elfen o siarad a gwrando a nodi effeithiau o hyfforddiant a phecyn 'Physical Education Talking Tool Kit' (PETTK) ar addysgu a dysgu.

PENNOD 3
METHODOLEG

Nod yr astudiaeth hon oedd edrych ar ganfyddiadau athrawon Addysg Gorfforol (AG) o ddatblygu sgiliau Llythrennedd pobl ifanc trwy AG. Mi fydd y bennod ganlynol yn trafod y methodoleg a cafodd ei mabwysiadu i ateb y nod hwn ac mae wedi cael ei rannu i fewn i wyth cydrannau. Yn gyntaf fydd cyfiawnhad o ddyluniad, moeseg, astudiaeth beilot, sampl, dull, analeiddio data, didwylledd ac yn olaf y gasliad.

3.1 Cyfiawnhad o ddyluniad

Mae Denzin a Lincoln (1994) yn awgrymu bod astudiaeth o effeithiau / nodweddion yn eu lleoliadau naturiol, gan geisio gwneud synnwyr o'r canlynol, neu ddehongli, ffenomen o ran yr ystyron pobl yn dod â hwy i ymchwil ansoddol. Gan fod yr astudiaeth hon yn archwilio mewn i ddatblygiadau llythrennedd o fewn amgylchedd naturiol yr ysgol, ystyriwyd fod dull ansoddol yn ddelfrydol i'w ddefnyddio. Fel rhan o ffenomenon, mae ymchwil ansoddol yn cael ei ddiddordeb yn y persbectif cyflawn neu holistig, maent yn cymryd yr ystyriaeth a'r gwerthoedd sylfaenol a'i gyd-destunau (Morse, Swanson a Kuezel, 2001), gan ganiatáu ymchwilwyr i ennill dealltwriaeth fanwl o'r cyfranogwyr, cysyniadau a phrofiadau personol (Patton, 2002). Nodwyd Patton (2002) dri math o ddata ansoddol, sy'n cynnwys cyfweiliadau, arsylwadau a dogfennau. Oherwydd y nodweddion archwiliadol o fewn ymchwil ansoddol a'i ddull naturiol at ei destun, chaiff chyfweiliadau lled-strwythuredig, recordiau cael eu cynnal (Denzin a Lincoln, 2005a). Bwriad yr ymchwilydd yw gwranddo ar lais cyfranogwyr neu eu harsylwi yn eu hamgylcheddau naturiol. Mae derbyn y datganiad hyn yn golygu bod ymchwilwyr yn cydnabod y cyfranogwyr i fod yn bobl annibynnol a fydd yn rhannu gwybodaeth. Mae'r rhyngweithiau personol rhwng ymchwilwyr a chyfranogwyr yn hanfodol mewn casglu data drwy gadw mewn cof y canolbwynt yr ymchwil a bod yn glir am rôl ymchwilwyr.

Yn ol yr astudiaeth, cyfweiliadau yw'r un o'r dulliau fwyaf cyffredin a ddefnyddir o gasglu data (DiCicco-Bloom a Crabtree 2006). Mae cyfweiliadau yn darparu potensial sylweddol ar gyfer darganfod sut mae cyfranogwyr yn ei feddwl am faterion (Kruger, 1994), ac felly yn galluogi'r casgliad o wybodaeth gyfoethog (Krueger, 1988). Am hynny, mae'r dull yma yn briodol i ymchwilio canfyddiadau a barn athrawon/ arweinyddion i gynhyrchu trosolwg.

Cynhaliwyd astudiaethau ansoddol yn aml mewn lleoliadau sy'n gofyn am gyfranogiad pobl yn eu hamgylcheddau bob dydd. Felly, mae unrhyw ymchwil sy'n cynnwys pobl yn gofyn am ymwybyddiaeth o'r materion moesegol a all ddeillio o ryngweithio o'r fath.

3.2 Moeseg

Bydd perthynas rhwng ymchwil gytbwys yn annog atgelu, ymddiriaeth, a ymwybyddiaeth o fater moesegol. Ystyriwyd Kvale (1996) cyfweiliadau i fod yn ymdrech foesol, gan honni bod ymateb y cyfranogwr yn cael ei effeithio gan y cyfweiliad, a bod y wybodaeth a geir yn effeithiol ar eu dealltwriaeth o'r profiadau dynol.

Mae cymeradwyaeth foesegol yn cael ei ystyried i fod yn ofyniad craidd o unrhyw astudiaeth (Kumar, 1999), yn bellach mae angen i ymchwilwyr fod yn ymwybodol o'r materion moesegol posibl ar bob cam o'r broses ymchwil (Silverman, 1993). Mae'r broses ymchwil yn creu tensiwn rhwng amcanion yr ymchwil wrth wneud cyffredinoliadau er lles pobl eraill, a hawliau cyfranogwyr i gynnal preifatrwydd. Gall niwed i gyfranogion gael ei atal neu leihau drwy gymhwyso egwyddorion moesegol priodol. Felly, mae diogelu pynciau neu gyfranogwyr mewn unrhyw astudiaeth ymchwil yn hanfodol (Orb et al, 2001). Cafwyd cymeradwyaeth moesegol gan y bwrdd moeseg Ysgol Chwaraeon Caerdydd ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd ym Mis Mehefin 2013. Roedd y ddogfen rhaid cynnwys teitl yr astudiaeth, amlinellu nodau ac amcanion a thanlinellu'r risgiau phosib all chosi yn yr astudiaeth. Darpariwyd llythyron gwybodaeth a ffurflenni caniadâd i'r athrawon, cydlynnydd AG a chwaraeon ysgol (AGChY) [PEES] a darlithydd, (gweler atodiad **B a C**). Roedd y llythyr yn cynnwys pwrpas yr astudiaeth, esboniad o refn yr astudiaeth, amlinellu hawl y cyfranogwyr i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg yn ystod yr astudiaeth (Patton, 2002). Roedd y cyfranogwyr yn cael y cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau am yr astudiaeth i'r ymchwilydd cyn llofnodi'r ffurflen ganiatâd gwybodus. Drwy gydol yr ymchwil, chaiff yr holl wybodaeth ei chadw'n gwbl gyfrinachol yn unol â Deddf Diogelu Data (1998) i newidiwyd enwau'r cyfranogwyr i enwau ffig er mwyn ddiogelu eu hunaniaeth felly roedd gwybodaeth sensitif wedi'u gadw'n gyfrinachol.

3.3 Astudiaeth Beilot

Cyn cwblhau'r cyfweiliadau, cwblhaodd yr ymchwilydd astudiaeth beilot i ganiatáu'r ymchwilydd i brofi syniadau a dulliau cyn ymgymryd â'r ymchwiliad llawn (Maxwell, 2013). Roedd yr astudiaeth beilot yn gyfle i gweithdrefnau, megis, y cyfweiliad, trefn y cwestiynau a lleoliad y dictaffon yn cael eu hadolygu (Kumar, 1999). Cynhaliwyd y cynllun peilot er mwyn sicrhau y byddai'r wybodaeth berthnasol a ddarperir ar gyfer yr astudiaeth yn cael eu thrafod. Mae'r broses hon wedi helpu i gynyddu dibynadwyedd yr astudiaeth (Kim , 2010) ac ar yr amod, roedd yr ymchwilydd gyda chyfle da i ymarfer hwyluso cyfweiliadau

ag oedd ganddynt unrhyw brofiadau blaenorol. Roedd angen hefyd i gynnal yr astudiaeth peilot i sicrhau bod yr holl gwestiynau yn ddealladwy ac yn ddigon agored i sicrhau y gall y cyfranogwyr i'w ddeall ac ymateb yn llawn.

Yn ystod yr astudiaeth beilot, sylweddolodd yr ymchwilydd fod angen trefn y cwestiynau i'w haddasu. Felly, o ganlyniad i'r astudiaeth beilot y ddau addasiad canlynol: Yn gyntaf, cafodd trefn y cwestiynau eu newid er mwyn hyrwyddo llif. Yn ail, cafodd cwestiynau eu hail - eirio i sicrhau bod y cyfranogwyr yn deall yn glir yr hyn a oedd ei ofynnir iddynt. Er enghraifft: "Pa strategaethau yr ydych yn gweithredu i ddatblygu ansawdd sgysiau a gwaith ar y cyd?" i "Pa strategaethau yr ydych yn gweithredu i ddatblygu ansawdd uchel o gwranddo a siarad o fewn eich gwersi?"

3.4 Sampl

Mae sampl yn cael ei ddefnyddio i benderfynu a dyfynio grŵp o gyfranogwyr sy'n cael ei ddefnyddio yn yr astudiaeth. Yna bydd y canlyniadau a gesglir o samplau tebygolrwydd eu cyffredinoli yn gyffredin ar draws poblogaethau ehangach.

Mae sampl tebygolrwydd yn cael ei ddefnyddio pan fydd cyfranogwyr bo modd yn cael cyfle hysbys a gyfrifir o gael eu cynnwys yn y prosiect ymchwil. Strategaethau ansoddol fel arfer yn defnyddio samplau nad ydynt yn debygolrwydd neu samplau bwriadus. Wrth ymgymryd â'r prosiect ymchwil, penderfynwyd defnyddio'r dair athrawes AG o ddwy ysgol Uwchradd, darlithydd o Brif ysgol Fetropolitan Caerdydd ac un cydlynnydd AGChY, oll o'r sector addysg Cymraeg. Chafwyd y cyfranogwyr eu dewis ar sail eu bod wedi mynychu'r gweithdi 'Physical Education Talking Tool Kit' a'u fod yn llwyddiannus o ran defnydd a cydlynu'r pecyn i mewn i'w strwythur dysgu. Defnyddiwyd sampl Cymraeg gan bod prinder ymchwil o fewn ysgolion Cymraeg.

3.5 Dull

Cafodd canllaw cyfweiliad ei datblygu o adolygiad llawn o lenyddiaeth. Bydd yr ymchwil wedyn yn cael eu cyfweld gan ddefnyddio cyfweiliad lled-strwythuredig gyda'r diben o gael disgrifiadau o fyd bywyd y cyfranogwyr (Kvale, 2007) ymrwymo i safbwynt y person (Patton, 2002). Mae cyfweiliad lled-strwythuredig yn cael ei ddefnyddio gyda'r cyfwelydd gan ei fod yn caniatáu i ni i '*mynd i mewn i safbwynt rhywun arall*' (Patton, 2002, t.341). Mae'r strwythur yma o gyfweiliad yn seiliedig ar ymchwil sy'n cyflwyno'r un pwnc i bob cyfranogwyr, ond nid oes angen i ofyn y cwestiynau o fewn trefn benodol neu'n defnyddio'r

un greirfa ym mhob cyfweiliad (Armour *et al*, 2012). Awgrymwyd Kvale a Brinkmann (2009) fod drwy sgwrs, mae pobl yn datgelu gwybodaeth am eu profiadau, teimladau ac agweddau tuag at ffenomen benodol. Mewn cyfweiliad, mae'r ymchwilydd yn gallu gofyn cwestiynau, a gwrando ar yr ymatebion a roddwyd gan y cyfranogwr, gyda'r opsiwn o ofyn mwy o gwestiynau ar unrhyw bwynt penodol, er mwyn cael y dyfnder sydd ei angen gwybodaeth o'r cyfranogwr (Kvale a Brinkmann, 2009). Mae ffurf yma o gyfweiliadau yn cael eu cynllunio'n ofalus, gan ddefnyddio testun cyfnewidiol a chwestiwn dilyniant, yn dibynnu ar y rôl y cyfranogwr neu eu mynediad at wybodaeth (Armour et al, 2012).

Yn ogystal, defnyddiwyd cwestiynau penagored ar gyfer y cyfweiliad er mwyn caniatáu 'paramedrau eang' ar gyfer y cyfranogwyr i ateb cwestiynau yn geiriau eu hunain ynghylch y pwnc a gyflwynwyd gan y cyfwelydd (Roulston, 2010, t. 12). Trwy gydol y cyfweiliad defnyddiwyd chwiliedyddion, er enghraifft gallwch chi esbonio mwy?' A 'pham yn eich barn chi yw hynny?' er mwyn sicrhau bod cymaint o wybodaeth yn cael ei ddarparu gan y cyfranogwr. Cafodd y cyfweiliadau eu cynnal o fewn swyddfeydd tawel o fewn amgylchedd ysgol ac gwnaethant bara tua 40-50 munud yr un.

3.6 Analeiddio data

Yn yr astudiaeth bresennol o ddadansoddiad cynnwys anwythol â gweithdrefnau, chaiff ei gynnal gyda'r nod o ymgysylltu â'r trawsgrifiadau dros gyfnod o amser i ddal beirniadaeth ac enghreifftiau penodol i'r ymchwil. Yn ychwanegol i hyn mae dadansoddiad cynnwys ansoddol yn canolbwyntio ar y nodweddion iaith cyfathrebu gyda'r sylwadau i gynnwys neu wneud ystyr o gyd-destunol y testun (Budd, Thorp, a Donohew, 1967; Lindkvist, 1981; McTavish a Pirro, 1990; TESCH, 1990).

Yn yr astudiaeth bresennol cafodd yr holl gyfweiliadau a sgwrsiau'r cyfweiliadau eu trawsgrifio o lafar i ddull ysgrifenedig, gan gyfeirio at newid sgwrs o un ffurf i ffurf arall (Kvale, 2007). Ar ôl trawsgrifio pob cyfweiliad, cafodd dadansoddiad cynwysedig anwythol, diddwythol ei fabwysiadu. Roedd ymchwil anwythol yn ddull hyblyg oherwydd nad oedd unrhyw ofyniad o ddamcaniaeth a bennwyd ymlaen llaw i gasglu data a gwybodaeth. Oddi yma, roedd dadansoddiad anwythol yn cychwyn lle yr oedd codio a chategoreiddio'r cysondeb craidd ac ystyron yn digwydd (Patton, 2002). Yn ogystal â hyn, gwanaeth yr ymchwilydd darllen trwy'r testun drwy wneud nodiadau o'i argraffiadau cyntaf, meddyliau, a dadansoddiad cychwynnol. Mae codau yn cael eu didoli i gategoriâu yn seiliedig ar sut oedd y codau gwahanol yn gysylltiedig. Mae'r categorïau sy'n ymddangos yn cael eu

defnyddio i drefnu a chodau grŵp yn glystyrau ystyrion (Coffey & Atkinson , 1996; Patton, 2002) (gweler atodiad DD). Bydd dadansoddiad thematig wedyn yn cymryd lle y bydd y themâu cyffredin yn cael eu nodi gan y trawsgrifiadau'r cyfweiliadau (Anderson, 2007).

3.7 Didwylledd

Mae didwylledd (trustworthiness) yw'r term cyffredinol sy'n disgrifio'r uchod ac mae'n ymwneud â faint mae'r ymchwilydd wedi cadw at weithdrefnau penodol i'r dull a ddewisir (Berg & Latin, 2008). Yn ôl Morrow (2005) mae ymchwil ansoddol 'yn cwmpasu safonau lluosog o ansawdd' ac un ohonynt yw raddau y gellir ymddiried (Morrow, 2005: 250).

Mae ymddiriedaeth yn gyfochrog â thrylwyredd, gellir mynd i'r afael trwy egwyddorion ymholiad ansoddol ar bedwar maen prawf o hygredded, trosglwyddo, dibynadwyedd a chydymffurfiad (Lincoln a Guba,1985). Mae sefydlu graddau gellir ymddiried yn cadarnhau i'r darlennydd fod canfyddiadau'r astudiaeth yn werth talu sylw i (Lincoln a Guba, 1986).

Dibynadwyedd yw y prawf neu weithdrefn s'yn cynhyrchu canlyniadau tebyg o dan amodau cyson ar bob achlysur (Bell, 2005). Oherwydd bod y canlyniadau a gafwyd drwy'r cyfweiliadau yn seiliedig ar ganfyddiadau athrawon, ni allant, felly, cael eu cymryd allan o'u cyd-destun neu gyffredinol i weddill y boblogaeth addysgu. Esboniwyd Sapsford a Jupp (1996, dyfynnwyd yn Bell, 2005) taw dilysrwydd yw gwneud mesur neu'r nodweddu hyn y mae'r awduron yn honni, a bod y dehongliadau yn dilyn oddi wrthynt. Mae'r canlyniadau a gasglwyd o'r cyfweiliadau gydag athrawon yn dangos ateb clir i'r pwnc dan sylw ac felly yn dangos dilysrwydd cryf.

Mae credadwyedd yn darparu eglurhad bod y data a adroddwyd yn cyfateb â realiti'r ymatebwyr. Tynnwyd Lincoln a Guba (1985) sylw at y ffaith bod trosglwyddedd yn faen prawf pwysig i weld a yw'r canfyddiadau ymchwil trosglwyddo i leoliadau eraill. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys llwybr archwilio sy'n rhoi cyfle i farnu'r broses ymchwil a'i drosglwyddo i'w cyd-destun ei hun (Holloway a Wheeler, 2009) darllenwyr eraill. Mae'r astudiaeth yn cyflawni hyn trwy ddarparu disgrifiadau cyfoethog o'r broses gyfweld, cyfranogwyr a'r sail resymegol ar gyfer casglu data yn yr adran ddulliau.

Y meini brawf olaf y mae Guba a Lincoln (1985) yn trafod yw chydymffurfiad. Chydymffurfiad yw'r gallu i ddangos bod y canfyddiadau yn cael eu hymgorffori yn y data ac nid yn unig ddyfais yr ymchwilydd (Guba a Lincoln, 1989), ond modd i helpu i gweld y rhesymeg glir a ddefnyddir i ddadansoddi'r data.

Casgliad

Mae'r bennod yma wedi crynhoi y trafod yn fanwl o'r dulliau ymchwil a fabwysiadwyd i ateb nod yr ymchwil. Yn benodol, dull ansoddol gan gynnwys cyfweiliadau lled strwythuredig gyda pump cyfweiliadau oedd yn pennodol at AG. Mi fydd y bennod nesaf yn trafod canlyniadau o y gwaith ymchwil.

PENNOD 4

TRAFODAETH O'R CANFYDDIADAU

Bydd yr adran hon yn trafod y gwybodaeth a gasglwyd o'r cyfweiliadau a gynhaliwyd yn yr astudiaeth. Yn dilyn dadansoddiad o'r data, daeth dau brif themâu i'r amlwg o ddatblygu Llythrennedd o fewn Addysg Gorfforol (AG) a gafwyd eu casglu o'r dadansoddiad mewn perthynas â nodau ac amcanion yr astudiaeth, sef adnabod canfyddiad athrawon ar sut mae llythrennedd yn datblygu o fewn Ysgolion Cymreig, nodi enghreifftiau o sut mae athrawon AG yn datblygu llythrennedd mewn AG a nodi effaith y pecyn siarad â'r athrawon a disgyblion AG. Y prif themâu sydd yn y bennod yma yn cynnwys, yn gyntaf, ffeithiau sy'n effeithio ar lwyddiant o ddatblygu llythrennedd o fewn AG ansawdd uchel megis, adnoddau a chymorth ac anawsterau. Yr ail brif thema yw datblygu o'r 'Physical Education Talking Tool Kit'(PETTK) a fydd yn edrych ar ganfyddiadau athrawon o'r 'PETTK' ac yna eu defnydd o'r 'PETTK' gyda'i chryfderau ac ardaloedd i ddatblygu yn bellach. Yn ychwanegol i hyn y bydd dwy themâu eraill yn strwythuro trwy gydol y bennod; Enghreifftiau o sesiwn gyda defnydd o lythrennedd a strategaethau dysgu. Bydd tystiolaeth gefnogol o'r cyfweiliadau lled-strwuthuredig yn cael eu defnyddio i greu cysyniad realistig o'r canfyddiadau. Gweler atodiad DD am tabl dyfyniadau.

4.1 Ffeithiau sy'n effeithio ar lwyddiant o ddatblygu llythrennedd o fewn AG Ansawdd uchel

Canfyddiad clir yr astudiaeth bresennol yw bod y cyfranogwyr yn yr astudiaeth wedi cyfleu eu dealltwriaeth o'r Fframwaith Llythrennedd a rhifedd (FfLIRh). Datganwyd Rant (2006) a Eraut (1994) fod athrawon angen y gallu i ddefnyddio amrywiaeth o wahanol fathau o wybodaeth ac arbenigedd, gan ennill dealltwriaeth ddyfnach gan ei fod yn rhoi effaith ystadegol ac yn feintiol sylweddol ar gyflawniad myfyrwyr (Metzlera a Woessmann, 2012). Pan ofynnwyd y cyfranogwyr am eu hesboniad ehangach ar lythrennedd, datgelodd Cerys athrawes AG: *"Maent yn bwyslais arbennig o uchel ar y cwricwlwm cenedlaethol ar y foment. Mae'r sir wrthi'n mapio llythrennedd a rhifedd i ni, felly o'n datblygiad fi yw helpu disgyblion i wella'r modd y maent yn cyfathrebu yn dda."* Yn debyg, cytunodd y darlithydd AG gyda y pwyslais yma:

"Mae lot mawr o bwyslais yn cael eu rhoi o fewn ysgolion ac i ni'n ymwybodol o hynny o fewn prifysgolion am ein bod yn darlithio ar gwrs addysg gorfforol a fin ymwybodol o pwysau mae'r staff yn cael eu rhoi o pob pwnc er mwyn cyrraedd targedau a gwella llythrennedd a rhifedd."[Rhiannon, darlithydd AG]

Ar ben hynny, os mae dealltwriaeth a chronfa gwybodaeth yr athro yn gryno, fydd hyn yn datgelu'r broses addysgu - dysgu drosglwyddadwy i'r cyfranogwyr wrth ennill gradd uwch o wybodaeth a dealltwriaeth o amcanion y cwricwlwm a'r FfLIRh. Mae'r llenyddiaeth helaeth ar swyddogaethau cynhyrchu addysg yn awgrymu fod gwybodaeth athrawon, fel un, o bosib yr unig ffactor sydd yn gysylltiedig â thwf mewn cyflawniad myfyrwyr. Yn gynnar yn eu hadolygiad o'r llenyddiaeth, casglwyd Hanushek (1986,) fod y peth agosaf at ganfyddiad cyson ymhlith yr astudiaethau yw bod athrawon yn fwy callach, yn perfformio'n dda o ran profion, addysgu, a all llafaredd wella yn yr ystafell ddosbarth a fydd yn arwain at allu, cyfranogiad, perfformiad, dealltwriaeth a chynnydd o ran gwybodaeth y disgyblion. Mae hyn yn gysylltiedig ag AG ansawdd uchel (AGAU) am fod dealltwriaeth y bobl ifanc yn dod o'r athrawon ac felly, os mae'r addysgu a'r dysgu ar lefel uchel fydd lefelau addysg y pobl ifanc yn cynyddu hefyd.

Mae llwyddiant yn arwydd da o ganlyniad i AG ansawdd uchel trwy ddatblygiad a defnydd o'r FfLIRh. Mae tri chyfranogwyr wedi, hyd yn hyn, gweld canran fach o lwyddiant o fewn eu gwersi ymarferol a theori AG.

"i ni wedi gweld llwyddiant. Mae hyn wedi rhoi rhywfaint o strwythur iddyn nhw (disgyblion) le maent allu ateb y cwestiynau a falle i ni (athrawon) yn gofyn bach fwy le y maen nhw allu accesso graddau bach fwy na beth fysan nhw fel arfer. Felly mae wedi bod yn llwyddiant." [Llinos, athrawes AG]

Mae hyn yn dangos fod y pobl ifanc yn elwa o'r fframwaith am eu bod yn dilyn y strwythur ac yn cymryd rhan trwy gyfleu cwestiynau ehangach sydd yn galluogi nhw i ragori eu hunain trwy gyrraedd graddau yn uwch. Yn ogystal mae cyfranogwr wedi canfu fod y dysgwyr yn mwynhau defnyddio nwyddau technolegol gyda'u ddysgu. Fel y cyflawnwyd Maduna (2002), os ddaw'r athro a gwrthrychau mae'r dysgwyr yn defnyddio yn bywydau pob dydd i mewn i amgylchedd dysgu, mae canlyniadau mwynhad a gwelliant o'r cyddestun yn amlwg. Roedd hyn yn amlwg gyda Delyth: *'Mae'r plant yn eu mwynhau am eu bod yn rhan o dechnoleg a ma nhw gyd yn mwynhau defnyddio technoleg. Felly ydyn mae'r plant yn mwynhau bach fwy achos i fi wedi gweld gwelliant o fewn agweddau.'*

Yn ogystal ag mwynhad y mae cymhelliant hefyd yn rhan o AGAU. Mae yna rhai problemau sydd ar frig unrhyw broblem a hynny yw, plant ddim eisiau cymryd rhan am nad ydynt yn mwynhau'r pwnc ac nid ydynt yn cael eu cymell. Mae'n hanfodol deall anghenion y pobl ifanc mewn perthynas â dewisiadau cymhelliant a gweithgarwch o fewn AG. Mae gwaith Ntoumanis (2001) yn cydnabod cymhelliant unigolion o ganlyniad i argaeledd a'r dewis o weithgareddau o fewn AG. Mae hyn yn cael eu cyfleu gyda Delyth sydd wedi

gweld llwyddiant o roi rolau gwahanol i'r disgyblion sydd yn eistedd allan i sicrhau eu bod yn rhan o'r wers:

“mae'r plant yn rhan o werthuso , ma nhw'n arwain , ma nhw'n reffo , ma nhw'n helpu cynllunio, ma nhw'n fonitor grwpiau, felly mae'r plant sydd yn eistedd allan yn cael eu hannog i gymryd rhan o fewn swydd benodol.”

Yn ogystal, mae'n datgan os yw athrawon yn darparu dewisiadau mewn AG maent yn annog a datblygu sgiliau rhyngpersonol a llythrennedd unigolyn. Mae'r cwricwlwm cenedlaethol o AG wedi cael ei rhoi ar waith er mwyn gwella sgiliau disgyblion. Er mwyn cyflawni hyn, argymhellir athrawon i ganolbwyntio ar nifer fach o gêmâu o fewn AG megis pêl-droed a hoci (NCPE, 2008). Mae Smith *et al.*,(2009) yn dadlau bod er y gall y cwricwlwm gyfyngu ar y dewisiadau gweithgaredd, mae athrawon yn parhau i ddarparu disgyblion gydag amrywiaeth o weithgareddau a dewisiadau o rolau hwylus o fewn AG.

Ar ben hyn, mae'r canfyddiad uchod yn gysylltiedig â'r arddulliau addysgu am ymddangoswyd thêma ar y canfyddiad uchod a'r chyflwyno FfLIRh i mewn i AG gyda phwyslais ar AGAU. Mae'r enghraifft uchod a dilynol yn dangos fod y fframwaith wedi effeithio ar ddysgu ac addysgu'r athrawon, ac felly, wedi arwain at yr athrawon i newid arddulliau eu dysgu a chanolbwyntio ar ddim effeithio amgylchedd dysgu'r dosbarth. Gyda chysylltiad â'r canfyddiad uchod nodwyd Delyth a Cerys yr un arddulliau le ychwanegwyd eu bod yn fuddiol iawn fod y disgyblion yn cael y cyfle i gymryd cyfrifoldebau megis 'hyfforddwyr' gan gynnwys rhoi adborth i'w gilydd i sicrhau fod dysgu oddi wrth ei gilydd yn digwydd. Gall hyn eu mabwysiadu o asesiad cyfoedion ac addysgu cilyddol fel nodwyd gan Cerys yn y dyfyniad isod: *“Mae yna system byddies, fi yn eu defnyddio ac y maent yn gweithio. Mae'r plant yn edrych ar berfformiad ei gilydd ac wedyn yn adrodd dol, dwy seren a dymuniad, ble maent yn gallu datblygu.*

Mae'r dyfyniad yma yn awgrymu fod y disgyblion yn fwy medrus wrth ddadansoddi symudiadau trwy gynorthwyo datblygiad cymdeithasol gan ddarparu adborth sy'n gweithredu dull dysgu cilyddol (Mawer, 2003; Mosston & Ashworth, 2002; Goldberg, 1995). Mae hyn yn ddiymdroi arferion da o ddarparu gwersi o ansawdd uchel am eu bod yn annog pobl ifanc i ddysgu oddi wrth ei gilydd.

Yn ogystal ag hyn mae arddulliau dysgu hefyd yn cael effaith ar amgylchedd dysgu lle mae parch yn cael eu cyfleu ar gyfer arddulliau cilyddol dysgwyr, lle y mae pobl ifanc ac athrawon yn annog a chefnogi ei gilydd, ac ymhellach fel datganwyd Subban (2006) yr

athrawon yn adnabod eu myfyrwyr fel unigolion. Dywed Llinos: “*Fi ddim moyn effeithio ar amgylchedd dysgu'r dosbarth.*” O ganlyniad i ddim effeithio ar amgylchedd dysgu ychwanegwyd: “*trial sticio at arddulliau dysgu sydd yn gweithio gyda dosbarth achos mae arddulliau dysgu gwahanol i fi'n defnyddio yn wahanol i bob un dosbarth, felly fi wedi ffeindio beth sy'n gweithio yn dda pob un dosbarth.*” [Llinos] Trwy'r prosesau addysgu-dysgu y mae'n eglur fod pobl ifanc yn dysgu mewn arddulliau gwahanol, ddatganwyd Shein a Chiou (2010) fod, ar gyfer i athrawon wneud y gorau o'r broses, mae'n bwysig iddynt adnabod a gwybod arddulliau dysgu eu disgyblion am y gall helpu'r broses cynllunio yn y pen draw.

Am fod y bobl ifanc yn mwynhau defnyddio technoleg a chymryd gwahanol rolau o fewn AG, wedi cyfleu newidiadau o fewn arddulliau dysgu athrawon. Mae'r adran nesaf yn sôn am yr adnoddau gweledol a thechnoleg sydd yn cael eu defnyddio i ddatblygu llythrennedd.

4.1.1 Datblygiadau athrawon ar ddefnydd o Adnoddau a Chefnogaeth

Trwy gydol y pump cyfweiliadau yr oedd nifer o gyfeiriadau at y defnydd o adnoddau a oedd yn cael eu defnyddio o fewn gwersi AG i ddatblygu ac annog llythrennedd. Yng nghyd-destun addysgu, mae cymhorthion gweledol yn eitemau sydd wedi'u cynllunio (rhan fwyaf gan athrawon) i gefnogi gwybodaeth ysgrifenedig neu llafar, fel y gall pobl ifanc deall yn haws. Maent yn cynnwys graffiau, delweddau, bwrdd gwyn, siartiau, posteri, modelau corfforol, mapiau, sleidiau, a phethau eraill sy'n hwyluso prosesau addysgu a dysgu. Yn ôl Foliaki (2012) mae cymhorthion gweledol yn gallu i ddefro a chynnal diddordeb y myfyrwyr, symleiddio addysgu, cyflymu dysgu ac yn gwella cadw gwybodaeth a ddysgwyd. Mynegwyd y cyfranogwyr eu bod yn defnyddio rhwy' fath o gymhorthion gweledol i annog sylw a chyfranogiad y pobl ifanc i sicrhau dealltwriaeth a gwellhad sgiliau llythrennedd o fewn gwersi AG. Credwyd Maduna (2002) fod rhaid i'r cymhorthion addysgu sy'n cael eu dewis ar gyfer addysg, fod yn gysylltiedig â'r amgylchedd cymdeithasol y dysgwyr. Os yw athrawon yn dod â gwrthrychau y mae'r dysgwyr yn eu defnyddio yn eu bywydau bob dydd i mewn i ystafelloedd dosbarth neu defnyddiwch gemau y tu allan i'r dosbarth yn ystod y gwersi, bydd y canlyniad yn adeiladu cyd-destun yn well o'r pynciau cysyniadau a pherthynas gryfach rhwng hyn y mae plant yn dysgu yn y byd go iawn .

Mae'r damcaniaethau a gafwyd eu cyfleu o ddefnydd o adnoddau o fewn gwersi a'r tu yn allan angen fod yn fuddiol i'r disgyblion. Fel y dywed Siân yn y dyfyniad canlynol; “*Fi'n*

defnyddio lot o'r ipads wedyn yn dod a llythrennedd a rhifedd i mewn so meant (y disgyblion) yn analeiddio'r gwaith wedyn creu brawddegau." Yn ychwanegol, dywed Llinos: *"pethau fel gymnasteg i ni wedi llwyddo yn y gampfa i chyfleu visual displaise gyda sentence starters, ma gyda ni termau gymnasteg cywir. Mewn cydberthyniad a hyn fe wnaeth Cerys creu hysbysfwrdd allan o 'wheely white board' felly fydd yn haws i symud le i le.*

"Mae gennyf wheely white board a dwy'n mynd o amgylch y coridorau ac yn ai'r gym a byddai'n mynd, 'reit te i ni fynd i edrych ar hyn ac amser i chi gwerthuso gwaith eich gilydd.' Os mae'r wheely whitboard gyd fi sawl poster gyda fi ar y bwrdd sydd yn gwneud a termenoleg i ni fynd i ddefnyddio ar y diwrnod a hefyd i ni fynd iw drafod ar ddechrau'r wers, mae'r nod o wers arno, ti'n dwlu rhagor o bethau lan ac addasu fe, rhoi blaenoriaethau, felly fi wedi bod yn ddefnyddiol iawn."[Cerys, t.4]

Trosglwyddwyd hefyd fod Cerys yn cerdded o amgylch y coridorau'r ysgol cyn y wers AG gyda'r hysbysfwrdd i sicrhau fod y disgyblion yn darllen nod y wers, felly, wrth fynychu'r wers nad oes unrhyw wastraff amser gydag amcanion sy'n golygu gall y dosbarth neidio syth mewn i'r wers ymarferol. Am fod hyn yn syniad gwych o gyfleu llythrennedd nad yw'n gadarnhaol y bydd y pobl ifanc yn gweld y bwrdd gwyn cyn mynychu'r wers ac o gystal gall o'r ddefnyddio'r bwrdd gwyn gyda phosteri ac ysgrifennu ac o ganlyniad ni fydd y disgyblion yn cymryd llawer o sylw o'r nodweddion.

Yn ogystal â hyn roedd Delyth, cydlynnydd AGChY wedi cyflawni sawl strategaeth i'r ysgolion lleol ar sut i weithredu ac addasu ansawdd llythrennedd. Mae'r dyfyniad isod yn sôn am pobl ifanc yn cydweithio gydag eraill trwy gyfathrebu ac analeiddio perfformiad.

"Yr oeddynt yn gweithio gyda buddies yn y grŵp a pob amser yr oedd un buddy yn gwneud rhywbeth yr oedd y buddy arall yn gwyllo a ffilmio a rhaid rhoi adborth syth ynol. Un, beth wnaethant yn dda?, dau, beth ma nhw gallu gwneud er mwyn gwella perfformiad. Y tro nesaf ma nhw'n gweld y disgybl ma nhw rhaid rhoi feedback o feedback, hynny yw, beth oedd effaith y feedback cafwyd."

Yn ogystal ag hyn y mae'r defnydd o adnoddau yn gallu cael effaith ar unrhyw oedrannau. Gall fod yn galed ar y dechrau gyda blwyddyn 7, ond pan hun mae eu gallu a dealltwriaeth yn ehangu ond mae pawb yn gweithio'n wahanol yn y pen draw. Mae Cerys wedi egluro ei bod yn defnyddio cardiau symbylu gyda dosbarth TGAU i'w helpu deall ambell i weithgaredd, modd gwahanol i ysgrifennu i lawr a hefyd trwy newid arddulliau dysgu, trwy adael y disgyblion dysgu eu hunain a'i gilydd wrth ddefnyddio cardiau symbylu. Wrth roi'r wers yn ddwylo'r disgyblion y mae'n dangos fod yr athrawes gyda ffudd yn y

disgyblion yn gwneud beth a ofynnwyd. Mae hefyd yn sicrhau fod rhaid i'r disgyblion gweithredu'r dasg i gyrraedd y nod terfynol.

“enghraifft wythnos diwethaf gyda TGAU gwnaethom ni gwaith ar ddulliau ymarfer, a odw fi wedi gwneud teacher led lessons wrth ddweud dyma beth yw fartleg, curciut, dyma sprint training, ond yn y wers yna yr oedd cardiau allan a wedais wrthynt taw sai'n mynd i wneud dim a taw chi sydd mynd i ddysgu'ch gilydd , chi sydd mynd i roi adborth ich gilydd”[Cerys]

Yn ôl yr athrawon, mae defnydd o adnoddau wedi cynyddu ers daeth y FfLIRh i mewn yn fis Medi ac mae'r disgyblion yn mwynhau'r gwersi fel nodwyd Siân: *“Os ydych yn ychwanegu popeth mewn gyda phethau fel hyn (adnoddau),dyna beth ma nhw'n (disgyblion) eu mwynhau.”*

Mae mwynhad wedi cael ei nodi fel ffactor o bwys sylfaenol o gymhelliant AG ar gyfer plant a phobl ifanc i gynnal eu hymgysylltiad cadarnhaol mewn gweithgaredd corfforol (GC) ac AG (Prochaska et al, 2003; Sallis, Prochaska a Taylor, 2000; Wallhead a Buckworth, 2004; YLI-Piipari *et al.*, 2009) Mwynhad yn elfen hanfodol sy'n gysylltiedig â chymhelliant ymarfer i gymryd rhan mewn PA (Dishman et al, 2005). Ac AG (Hashim, Grove a Whipp, 2008; Wallhead a Buchworth, 2004). Nodwyd Dishman et al., 2005 fod mwy o fwynhad mewn AG yn arwain at lefelau uwch o GC bob dydd mewn sampl o flynyddoedd 10 i 11. Fel tybiwyd, mae tasg sydd yn cynnwys hinsawdd ysgogol yn rhagweld mwynhad AG drwy gymhwysedd corfforol canfyddiedig a chymhelliant cynhenid yn y ddau ryw.

Mae mwynhad yn rhan o lwyddiant o ddatblygu llythrennedd ac AG ansawdd uchel (AGAU) am fod sawl sylwedd o AGAU wedi cael eu cyflwyno yn yr adran yma. Wrth ddefnyddio nwyddau o ran gwerthuso maent yn dangos yr awydd i wella a chyflawni mewn perthynas â'u galluoedd eu hunain. Yn ychwanegol i hyn y mae meddwl a gwneud penderfyniadau yn rhan o'r sylweddau ble chaiff disgybl y cyfle i roi adborth i unigolyn ar eu perfformiad neu ar berfformiad eu hunain. Hefyd yn gadael iddynt ddod o hyd i ac egluro ystod o syniadau a strategaethau i'w helpu i wella, amrywio ac addasu'r hyn maent yn gwneud, gan ystyried cryfderau a gwendidau eraill. Ac yn olaf, mwynhad y disgybl, le maent yn awyddus i gymryd rhan yn yr hyn sy'n digwydd, yn awyddus i fynd i wersi AG a siarad am yr hyn y maent yn ei wneud gyda brwdfrydedd.

Yn ogystal ag adnoddau gweledol y mae cymorth mewnol ac allanol yn rhan bwysig o ran llwyddiant ddatblygu llythrennedd o fewn ysgolion. Gwnaeth y pump cyfranogwyr ymateb yn dda at gymorth a derbynnir o'r ysgol ac allanol er enghraifft awdurdodau lleol.

Mae rhai athrawon wedi bod yn ffodus o ran bod yr ysgol wedi cyflogi cydlynnydd llythrennedd a rhifedd fel y nodwyd Siân: *“ma gyda ni cydlynnydd llythrennedd a rhifedd, a ni'n gweithio'n agos iawn gyda ddi, so mae hi wedyn yn dweud wrthym ni beth ddylen ni gwneud, mae'n argymhell ni gwneud pethe yn benodol, ac i ni'n trafod.”* Ac yn gystal fod gan yr ysgol cydlynnydd AGCHY sydd yn sicrhau fod yr ysgol yn cyfleu'r fframwaith o fewn pob pwnc a hefyd rhoi unrhyw fath o gymorth i'r pynciau sydd eu hangen. Dywed Cerys y cymorth y maent yn derbyn o fewn yr ysgol isod:

“Mae cydlynnydd PESS well up for it ac maent ddod 'nôl a lot o wybodaeth i mi. Dyw'r ysgol eu hunain , ond chi gydag arweinwyr yma , ac maent yn rhoi lot o help i ti ar ambell o syniadau y gallet ti wneud.”[Cerys]

O ganlyniad i'r cymorth mae'r athrawon ar y trywydd cywir o ddatblygu'r fframwaith o fewn eu gwersi ymarferol a gwersi theori. Mae cydlynnydd AGChY yn cydblethu i mewn gydag AG trwy weithio gydag athrawon AG i stimiwleiddio cynlluniau ar sut i ddatblygu llythrennedd a hefyd i helpu creu adnoddau gweledol pan mae angen.

4.1.2 Heriau, Anawsterau o ddatblygu Llythrennedd

Yn ogystal â'r llwyddiant yr oedd ambell gysyniad o heriau, anawsterau wedi codi. Yn amlwg wrth i unrhyw fframwaith neu strategaethau newydd o fewn AG mae'n anodd iawn i'w ddefnyddio enwedig wrth trial eu cyfleu o fewn dysgu pobl ifanc ac addysgu'r athrawon. Trwy gydol y pump cyfweiliadau yr oedd heriau, anawsterau sydd wedi cyfleu yn eu gwersi AG a hefyd eu dealltwriaeth eu hun pan ddaeth y fframwaith allan fel y nodwyd Llinos isod:

“struglais da i ddechrau cyn gwneud unrhyw beth gyda llythrennedd odd falle kids yn defnyddio geiriau Saesneg tu fewn i wersi Cymraeg, termau Saesneg, falle struglo gyda sut i ddechrau brawddegau, sut i asesu, sut i edrych ar eu perfformiad a siarad amdano.”

Mae'n dangos fod Llinos wedi gwneud ymchwil o fewn i'r strategaethau gwahanol all gael eu defnyddio o fewn AG ac o hyn wedi datgelu'r bod yna rhai problemau neu anawsterau sydd wedi cael eu hymddangos wrth dreialu'r fframwaith allan. Yn debyg gwnaeth Siân ddatgelu anawsterau y mae'n wynebu wrth gynnal rhai gweithgareddau penodol fel y gwelwyd isod:

“pethe sy'n du fas bach yn fwy, gemau tîm, fin credi ma fe'n fach fwy anodd, ma bach fwy o her na ma rhaid trefnu blaen llaw, reit dyma siwt i ni'n rhoi e (llythrennedd) yn y cwricwlwm y nawn cynllun gwaith a mynd gyda hynny”

Yn ogystal, roedd anawsterau eraill i rai cyfranogwyr gan fod nhw ddim mor ffodus gael gymaint o adnoddau fel ipads yn eu hysgol; fel y nodwyd gan Delyth oddi tan:

“yn anffodus does pob ysgol dim gydag un ipads heb son am ddau neu dri, ac mae rhai ysgolion gyda ipads i bob disgybl. Mae'n dibynnu ar bolisi'r ysgol oherwydd mae rhai ysgolion gyda pholisi lle does neb yn gallu defnyddio phones, felly chi methu cael plant i ffilmio ei gilydd ac y maent yn mynd mewn i ochr peryg.”

Yn debyg, gwnaeth Llinos awgrymu:

“s'dim lot o adnoddau i ddefnyddio, ma hwnna'n un o'n restrictives ni ar y foment, s'dim gyda ni unrhyw beth sydd mynd i reali gwahaniaethu'r plant achos i ni wedi setio dosbarthiadau o ran gallu tabeth.”

Anawsterau eraill cafodd i uwch oleuo oedd defnydd o gampfa neu neuadd chwaraeon. Chaiff rhai ysgolion rhannu eu neuadd chwaraeon gydag awdurdodau lleol sydd yn golygu y mae'n amhosib rhoi unrhyw adnoddau gweledol i fynnu i ddatblygu llythrennedd. Fel y dangosir yn y dyfyniad Llinos:

“Ma tu fewn bach fwy practical i wneud pethau llythrennedd ond ma gyda ni heriau am i ni ddefnyddio neuadd chwaraeon i ni fethu rhoi unrhyw beth lan ar y waliau, dim byd o gwbl, am fod ni'n eu rhannu gyda'r cyngor a ma clybiau yn dod mewn yn y nosweithu felly mae pethau yn cael eu tynnu i lawr.”

4.2 Effaith a datblygiad y 'Physical Education Talking Tool Kit' (PETTK)

Yn ystod y cyfweiliadau, fe wnaeth pob un o'r cyfranogwyr sôn am y 'PETTK' a sut maent wedi datblygu a chydgysylltu eu dysgu ac addysgu ers daeth y FfLIRh i mewn yn Medi. Fydd y gydran yma yn sôn am ganfyddiadau'r athrawon a defnydd o'r 'PETTK'.

4.2.1 Canfyddiadau athrawon ar y 'Physical Education Talking Tool Kit' a'r gweithdy

Cafodd y pecyn 'PETTK' eu cynllunio i helpu athrawon ac ysgolion ar arweinyddiaeth o sut i ddatblygu a chyfleu llythrennedd o ansawdd uchel o fewn eu gwersi. Mae'r 'PETTK' yn ddefnydd o gwrs sydd yn debyg i ganolfan i ddatblygu busnes (CBD). Maent yn gwrs sydd yn creu a chefnogi cyrsiau sydd yn cael eu gwthio gan y llywodraeth. Mae CBD yn galluogi fod cyfranogwyr yn gallu mynychu'r cyrsiau am eu bod yn gweithio o amgylch yr athrawon a beth sydd yn siwtio nhw.

O ran gweithdy'r 'PETTK', nododd y cyfranogwyr fod y diwrnod wedi bod yn effeithiol iawn fel y gwelwyd yn y dyfyniad canlynol: *'mae'r PETTK' yn ddefnyddiol,* [Llinos] A nodwyd Rhiannon: *"roedd gweithdy yn ddefnyddiol iawn oherwydd odd e wedi cael eu cynllunio i ffitio mewn gyda'r fframwaith llythrennedd odd e ddim yn add on, yr oedd yn ffitio mewn yn perfect i'r fframwaith a dyna'r holl sail dros eu datblygu."* [Darlithydd AG] Holl bwrpas y diwrnod oedd ehangu dealltwriaeth yr athrawon ar sut i ddatblygu'r fframwaith trwy ddefnyddio'r pecyn a sut maent yn plethu mewn gydag AG.

"yr oedd yn neis i wybod sut oedd y fframwaith yn ffitio a hefyd yr oedd yn neis i wybod sut oedd addysg gorfforol yn gallu cyfrannu, yr oedd hwn yn rhywbeth oedd yn benodol i addysg gorfforol le gall addysg gorfforol arwain y ffordd ac yr oedd yn neis i weld yr ochr llafar odd y rhan odd y talking tool kit yn bennaf wedi ffocysu arno." [Rhiannon]

Fel rhan gweithdy'r 'PETTK' fe wnaeth pecyn gwybodaeth eu danfon yn ôl gyda'r athrawon i'r ysgol. Un o'r cwestiynau oedd: A oedd y pecyn gwybodaeth wedi cyfrannu at ddealltwriaeth o fewn Llythrennedd? Atebwyd Cerys:

" beth oedd yn absolutely brilliant am y pecyn fod yna enghreifftiau, a bob hyn a hyn ti'n mynd yn stuc neu ti'n gwybod fod rhywun yn dod i mewn i arsylwi neu ti'n ail edrych ar gynlluniau gwersi ti."

Am fod y diwrnod wedi bod yn llwyddiannus yr oedd llawer o wybodaeth i'w chymryd i mewn felly wnaeth y pecyn rhoi cymorth ychwanegol pan aeth yr athrawon yn ôl i'w ysgolion.

A yw'r 'PETTK' wedi cael ar eich dysgu? Llinos: *"Maent wedi uwch oleuo pa mor bwysig mae llythrennedd ac enwedig ers i mi ddechrau yn yr ysgol le i fi nawr."* Mae hyn felly yn dangos oedd y diwrnod PETTK wedi bod yn effeithiol ac yn llwyddiannus iawn ar y cyd. Fydd y rhan nesaf yn son am sut mae'r athrawon wedi defnyddio'r pecyn ac os oes unrhyw gryfderau ac ardaloedd i'w wella yn y dyfodol.

4.2.2 Defnydd o'r 'PETTK', â'r cryfderau ac ardaloedd i ddatblygu yn bellach.

Prif nod y gydran yma i'w i weld os mae'r athrawon a'r darlithwyr wedi cyfoethogi'r pecyn a'r pum brif adrannau. Mae pob un o'r cyfranogwyr datgelu eu bod yn defnyddio rhyw faint o'r pum adran y 'PETTK' (gwelir atodiad D) o fewn eu gwersi ymarferol a theori. O fewn cyd-destun mae Llinos wedi defnyddio amrywiaeth bach o'r adrannau sydd ar gael. Mae'n uwch oleuo datblygu perfformiadau ac os mae'r pobl ifanc yn llwyddo gyda'r adrannau maent yn cadarnhau eu bod yn cyrraedd graddau uwch. Mae hyn yn dilyn y datganiad o'r FfLIRh fod disgwyliadau i godi'r bar e.e. diwedd cyfnod allweddol 2 yn nes at

lefel 5 a diwedd cyfnod allweddol 3 yn agosach at lefel 6 (FfLIRh, 2013). Fydd y gydran yma hefyd yn edrych ar os mae'r athrawon wedi bod yn defnyddio'r prif adrannau o'r ymchwil sef, siarad a gwranddo am eu bod yn rhan bwysig o ddatblygu'r sgiliau yma o ansawdd uchel ar draws cwricwlwm yr ysgol.

"Mwy na dim byd i ni wedi dechrau gyda siarada gwranddo a ni wedi gwneud lot o ni, nai ddefnyddio pethau i ni wneud tu fewn yn fwy achos ma gweithgareddau y tu allan bach fwy anodd achos ni heb gael unrhyw adnoddau i atgyfnerthu hwnna. Siarad a gwranddo arnom ni wedi gwneud dysgu ar y cyd le i ni'n rhoi rolau i'r plant o ran team leaders le ma nhw trafod beth yw cyfrifoldebau nhw a phethau fel hwnna. Ni hefyd yn gwneud meddwl trwy siarad le ma nhw gorfod falle yn gymnasteg le ma nhw gorfod cynllunio o fewn grŵp falle dilyniant le ma nhw'n datblygu dilyniant falle wythnos ar ôl wythnos falle i accesso graddau bach fwy." [Llinos]

Yn ychwanegol, fe wnaeth Llinos esbonio pa strategaeth y mae'n defnyddio wrth ddysgu blynyddoedd gwahanol. Mae'n bwysig fod yr athrawon yn adnabod pa strategaethau sydd yn gweithio'n gorau gyda gwahanol flynyddoedd am fydd hyn yn galluogi'r disgyblion i weithio'n galed a hefyd galluogi mwynhad o fewn y dosbarth.

"Bysen ni'n gwneud reflect gyda blwyddyn 9 a physen ni'n gwneud lot fwy o waith adlewyrchu ar berfformiad, sut bysen nhw yn gallu gwella. Beth i ni'n gwneud yn aml gyda gymnasteg yw i ni gael fideos lan le allwn weld sut i wneud rôl ymlaen a sut ma hwnna'n wahanol i beth ma nhw'n gwneud a gallwn drafod fel grŵp, felly ma lot fwy trafodaethau ynglŷn â pherfformiad" [Llinos]

Defnydd o siarad a gwranddo: Llinos: *'beth i ni wedi gwneud yw grwpio'r plant le mae dau grŵp yn gweithio gyda'i gilydd, mae un grŵp yn gwranddo ac mae'r llall yn siarad a rhoi adborth i'w gilydd wedyn ma nhw'n cymryd yr adrannau a chydweithio a defnyddio syniadau grŵp arall, cyfuno popeth, wedyn perfformio ac wedyn ma nhw'n adlewyrchu ar y perfformiad.'*

Mae hyn felly yn pwysleisio fod y pecyn PETTK wedi bod yn effeithiol i addysgu athrawon a hefyd yn effeithiol trwy drosglwyddo'r sgiliau llythrennedd a rhifedd i'r disgyblion o ansawdd uchel. Bydd yn fwy effeithiol yn farnau'r athrawon os gael fwy o amser i fabwysiadu'r fframwaith a gweithio allan sut i ddarparu ac atgyfnerthu pob un o'r pump strategaethau yn effeithiol o fewn gwrs ymarferol neu theori. Fel nodwyd Delyth: *"Beth i ni raid gwneud nawr yw mynd mewn i ddyfnder hwn, ac yn gofyn nhw am edrych mewn dwfn mewn i hwn am strwythur y frawddeg, ymestyn y frawddeg er mwyn impaction ar y perfformiad."*

Yn ogystal â phopeth, fe wnaeth y cyfranogwyr uwch oleuo fod y cwrs 'PETTK' angen cael eu rhannu o ran, athrawon cynradd ac ysgolion uwchradd hefyd o ran athrawon AG. Dywedwyd eu bydd yn fwy perthnasol at y pwnc ar sut i gyfleu yn union beth sydd n cael eu gofyn o'r FfLIRh. Mae canfyddiad o ddod a disgyblion i mewn i'r cwrs i arddangos esiampyl o wers AG yn defnyddio llythrennedd a rhifedd.

PENNOD 5

**TRAFODAETH GYFFREDINOL A
CHASGLIAD**

5.1 Trafodaeth Gyffredinol

Nod yr astudiaeth bresennol oedd datblygu sgiliau llythrennedd pobl ifanc trwy Addysg Gorfforol (AG). Trwy gydol yr astudiaeth, y prif amcanion adnabod canfyddiad athrawon ar sut mae llythrennedd yn datblygu o fewn Ysgolion Cymreig, nodi enghreifftiau o sut mae athrawon addysg gorfforol yn datblygu llythrennedd mewn AG a nodi effaith y pecyn siarad â'r disgyblion AG.

Er mwyn afael â'r cwestiwn ymchwil, chafwyd 5 cyfweiliad eu cynnal gyda thair athrawes AG, darlithydd AG Prif Ysgol a chydlynedd AG a chwaraeon ysgol AGCHY. Fe atebwyd dros ugain o gwestiynau yn fanwl iawn ac o ganlyniad i hyn, cafwyd y nodau a'r amcanion eu cyflawni.

Roedd yr astudiaeth wedi canfod, er bod y FfLIRh wedi ei gyflwyno i'r amgylchedd yr ysgol o fewn cyfnod byr o amser a bod yr athrawon wedi gweithredu strwythur llwyddiannus gan eu bod eisoes wedi gweld cynnydd sydd wedi cael eu gwneud gan y cyfranogwyr o fewn gwersi AG. Mae ambell o'r athrawon wedi datgan hefyd ei bod yn ddyddiau cynnar i weld gwelliannau eithafol, ond ar y llwybr cywir. O'r cyfweiliadau, roedd yn amlwg bod rhan fwyaf o'r cyfranogwyr wedi cytuno gyda'r ddatgan o bwysigrwydd llythrennedd a rhifedd o fewn AG a sut mae wedi annog ymddygiad da a mwynhad wrth ddysgu. Am fod y pobl ifanc yn mwynhau'r sesiynau y mae'n glir o'r cyfweiliadau ac o esiamplau'r athrawon eu bod yn dechrau deall sut i gyfleu siarad a gwranddo o ansawdd uchel o fewn gweithgareddau trwy roi a derbyn adborth oddi wrth ei gilydd.

Canlyniad arall a ddaw o'r ymchwil yw bod canfyddiadau athrawon a llwyddiant y 'Physical Education Talking Tool Kit' (PETTK) a'r defnydd wedi cael effaith gadarnhaol ar addysg disgyblion ac ar ddealltwriaeth yr athrawon. Roedd y 'PETTK' yn bwnc uchel o drafodaeth gyda chyfweleion yn datgan bod y cwrs yn ddefnyddiol iawn ac yn ddefnyddiol er mwyn deall sut i weithredu'r pum strategaeth o fewn amgylchedd addysg gorfforol. Yn o gystal, gall un ddadlau byddai'r cwrs wedi elwa'r cyfranogwyr fwy os oedd cyfle i weld sesiwn ymarferol gyda'r amcan o ddefnyddio llythrennedd neu rifedd. A hefyd os oedd y sesiynau wedi cael eu gwahanu o ran ysgolion cynradd, uwchradd a phynciau am nodwyd y cyfranogwyr y bydd yn fwy perthnasol i'r pwnc a'r cyfnodau allweddol a ddarparwyd.

5.2 Cyfyngiadau'r astudiaeth ac Argymhellion am Ymchwil y Dyfodol.

Goblygiad yr astudiaeth bresennol yw bod y FfLIRh wedi cael eu cyflawni o fewn yr ysgolion ac enwedig AG am gyfnod bach o amser sef tair mis. Roedd y sylwadau o'r athrawon drwy gydol yr astudiaeth, yn enwedig o ran eu safbwyntiau ar y fframwaith yn cefnogi hyn. Er mwyn hyrwyddo a chyfleu canlyniadau mwy cadarnhaol o ddatblygiad a defnydd y fframwaith o fewn AG yn y dyfodol, mae'n sicr dylasai academyddion eraill ystyried cyfweiliad a'r athrawon ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn academaidd i gadarnhau adborth a thrafodaeth fwy dyfnach ar eu llwyddiant o'r fframwaith ar pobl ifanc ac ar addysgu'r athrawon. Goblygiad arall oedd canolbwyntio ar gwestiynau mwy cymharol i'r astudiaeth. Trwy wneud hyn, bydd sicrhau safonau uchel a fanwl o adborth fydd yn caniatáu'r athrawon i fynegi eu dealltwriaeth, gwybodaeth a phroffesiynoldeb ar y pwnc.

Goblygiad terfynol yw'r gallu i gynnal trafodaethau anffurfiol rhwng athrawon, cydlynedd a darlithwyr er mwyn rhannu enghreifftiau o sesiynau, sut maent yn mapio cyfleoedd i ddatblygu llythrennedd a rhifedd. Gall hefyd ddarparu syniadau i'w gilydd ar ardaloedd o'r FfLIRh nad ydynt yn hollol sicr â, a sut all drosglwyddo i wersi yn effeithiol.

Dylai ymchwil yn y dyfodol ystyried canfyddiadau o wahanol rywiau oherwydd o fewn y sampl yr astudiaeth bresennol, y gymhareb o fenywod i ddynion oedd 5:0. Am fod rhan fwyaf o'r cyfweiliadau wedi sôn am gyfranogiad merched yn unig nad oeddynt yn gallu sylweddu ar ddatblygiadau'r bechgyn. Felly, wrth gyfweild â dynion mewn gwrthgyferbyniad a menywod, fydd sampl yr astudiaeth a'r canlyniadau'n fwy effeithiol am eich bod yn cael golwg o'r ddau ochr o'r geiniog. Gall hefyd chyfweild a nifer fwy o athrawon ar draws y wlad sydd yn gallu cefnogi a throsglwyddo canfyddiadau o'r FfLIRh ac effaith y datblygid ar y pobl ifanc. Yn ogystal, dylai ymchwil yn y dyfodol ystyried cyfweild a pobl ifanc o ran grwpiau ffocws i ehangu'r canfyddiadau'r fframwaith a hefyd i gael cred y myfyrwyr.

Cyfeirnodau

- afPE (Association for Physical education) (2008) Health position paper [online] Available from: www.afpe.org.uk/public/downloads/health_paperSept08.pdf [Accessed 29 September 2013]
- afPE (Association for Physical education) (2009) www.afpe.org.uk/advocacy-a-leadership [Accessed 29 September 2013]
- Alliance for Excellent Education (2004) *Tapping the potential: Retaining and developing high-quality new teachers*. Retrieved on October 3rd, 2012 from
